



SAIN FFAGAN



CARYS OFALUS



GENOD GWYRFAI

ECO'r Wyddfa

Rhif: 410

Mai 2013

Pris: 50c

Pencampwr Marathon Cymru.

O Lanberis i Lundain.

Alun Vaughan, un o hogia Llanber, ond bellach wedi cartrefu yn y Felinheli, yw Pencampwr Marathon Cymru, a hynny yn ei ras gyntaf erioed dros y pellter. Daeth yn seithfed yn ras agored marathôn Llundain mewn amser arbennig o dda sef 2 awr, 24 munud a 12 eiliad. Mae Alun yn aelod o Glwb Rhedwyr Eryri ers cyfnod ei ddyddiau ysgol, ac wedi gwneud enw iddo'i hun mewn rasys ffordd, mynydd a thraws-gwlad, ond dyma'r tro cyntaf iddo roi cynnig ar redeg marathôn llawn. Mae wedi bod yn rhedeg yn arbennig o dda dros y misoedd diwethaf, gan ennill hanner marathôn Mon y mis diwethaf fel rhan o'i baratoadau.

Yn cystadlu yn yr un ras roedd Rob Samuel o Lanrug, enillydd Marathon Eryri y llynedd. Roedd Rob hefyd yn gobeithio am amser cyffelyb i Alun, ond yn anffodus bu'n dioddef salwch dros yr wythnosau diwethaf a amharodd ar ei baratoadau. Er hynny, gorffennodd yntau'r ras mewn amser canmoladwy o 2 awr 38 munud ac 16 eiliad.

Roedd Alun a Rob yn rhedeg gyda'i gilydd am hanner cyntaf y ras.

Parhad Tudalen 27



Gweithiwr newydd i'r "Eco".



Yn y rhifyn diwethaf hysbysebwyd fod swyddi ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed. Bellach, mae un o'r swyddi rheini wedi eu llenwi, ac y mae Ifan Rhys Williams o'r Ceunant wedi cychwyn ar ei waith fel swyddog cyflogedig i "Eco'r Wyddfa". Mae wedi ei leoli mewn ystafell yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, a'i brif ddyletswydd dros yr wythnosau nesaf fydd sganio ol-rifynnau'r papur a'u digideiddio. Bydd hefyd yn sganio lluniau o archif yr "Eco", a bydd copi o'r casgliad gwerthfawr hwn yn cael ei drosglwyddo i ofal yr Archifdy yng Nghaernarfon. Maes o law bydd yr holl ol-rifynnau ar gael ar-lein, gan gynnwys y lluniau – a byddant hefyd wedi eu mynegeo, adnodd gwerthfawr i unrhyw un sydd am chwilio hanes digwyddiadau'r fro dros y deugain mlynedd diwethaf.

Yn ogystal a'r gwaith hwn, bydd Ifan hefyd yn cael cyfle i gyfrannu i ymgyrch farchnata'r papur, chwilio am a pharatoi hysbysebion, a chynorthwyo gyda paratoi straeon i'r papur.

Swydd dro-dro yn unig fydd hon i Ifan, oherwydd ddiweddd y flwyddyn bydd yn cychwyn ym Mhrifysgol Bangor ar gwrs gradd mewn Astudiaethau'r Cyfryngau.

Y gobaith yw y bydd dau bapur bro lleol arall yn ymuno a'r cynllun er mwyn gallu sicrhau parhad i'r swydd.

Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg?

Mae gweinidogion y Llywodraeth yn falch iawn o wneud datganiadau cyhoeddus sy'n dangos pa mor gefnogol ydynt i'r Gymraeg. Yn ystod y misoedd diwethaf roedd un o'r datganiadau rheini yn brolio fod rhai miloedd o bunnau yn cael eu rhannu i bapurau bro led-led y wlad. Bellach daeth yn amser talu'r cyfraniad hwnnw- ond daeth amodau ynghlwm.

Un amod yw fod pob papur bro yn arddangos logo Llywodraeth Cymru. Ar y logo mae'r ddraig a'r geiriau "Ariennir gan Lywodraeth Cymru". Mae'r geiriad yn Saesneg hefyd. Dyma oedd gan Swyddog Gweinyddol yr adran grantiau i'w ddweud yn ei llythyr: "Hoffwn dynnu eich sylw at logo Llywodraeth Cymru... a wnewch chi sicrhau bod eich cysodwyr/golygyddion/argraffwyr efo'r copi cywir... peidiwch a'i addasu ac mae angen ei gadw yn ddwyieithog." Yna, daw brawddeg a ellir ei darllen fel rhybudd: "Byddaf yn cadw cofnod o bob papur a'r logo a ddefnyddir."

Mae pwyllgor Gwaith “Eco'r Wyddfa” wedi ateb yn datgan eu hanfodlonrwydd ynglyn a'r amod hon. Papur uniaith Gymraeg yw'r “Eco” yn ol ei gyfansoddiad, a chadwyd at y rheol honno o'r cychwyn. Ni all y pwyllgor weld unrhyw fantais i'r papur nac i chwi'r darllenwyr o gael logo sy'n mynnu fod yr iaith Saesneg yn cael yr un sylw a'r Gymraeg.

Mae geiriad y logo hefyd yn awgrymu fod holl gostau'r papur yn cael eu talu gan y Llywodraeth. Ond cyfraniad yn unig ydyw, a hwnnw'n un digon bychan. 8% o holl gostau'r papur mewn blwyddyn yw gwerth y grant. Yn wir, mae'r pedwar cyngor cymuned lleol yn cyfrannu mwy, ond nid oes unrhyw amodau ynghlwm â'u cyfraniadau hwy.

Hyd nes y derbynnir ateb i'n sylwadau, ni fydd y logo yn cael ei arddangos yn yr "Eco".

RHIF 410

Mai 2013

Argraffwyd gan

Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn

Mehefin

Copi i law

Mai 19

Plygu

Mai 30

Ble

Brynrefail

Gorffennaf

Mehefin 16

Mehefin 27

Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,

Ym mis Ebrill roedd hi'n flwyddyn ers i mi ddechrau yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gysylltodd â mi yn ystod y flwyddyn. Trwy rannu eich profiadau, a thrwy gyflwyno cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'n stondin yn sioeau'r haf, fe wnaethoch gyfraniad gwerthfawr i lwyddiant y gwaith a fy ngalluogi i a'm tim o swyddogion i adnabod y materion sydd o bwys i siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o Gymru.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn mewn ffigyrau:

* Delio â 466 o achosion gan unigolion oedd yn teimlo bod ganddynt le i gwyno am wasanaeth Cymraeg

* Croesawu dros 300 o bobl i'n cyfarfodydd cyhoeddus

* Derbyn dros 260 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau mewn perthynas â'r Gymraeg

* Dosbarthu dros 10,000 o fathodynau 'Iaith Gwaith' sy'n dangos bod person yn siarad Cymraeg

Yn ein hail flwyddyn, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn gweithredu i herio sefyllfaoedd lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Yr haf hwn bydd stondin y Comisiynydd yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro, y Sioe Fawr yn Llanellwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Os ydych yn mynychu'r sioeau hyn, dewch draw i'n gweld i drafod eich profiadau a chyflwyno eich cwynion, derbyn bathodyn Iaith Gwaith a thafenni gwybodaeth am waith a rôl y Comisiynydd a hefyd er mwyn cael cyfle i dderbyn gwybodaeth a bwydo i mewn i'r ymholiad statudol arbennig yr ydym yn ei gynnal er mwyn edrych mewn manylder ar y defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Yn gywir

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

post@comisiynyddygymraeg.org / 0845 6033 221

Prifysgol Bangor

Annwyl Ddarllenwyr

Diddordeb yn yr amgylchedd? Eisiau gyrfa mewn maes cyffrous? Eisiau gweithio yn yr awyr agored? Os oes, yna'r cwrs MSC / MA Rheolaeth Amgylcheddol Gynaliadwy ym Mhrifysgol Bangor yw'r un i chi.

Hoffwn dynnu eich sylw at y cwrs meistr cyfrwng Cymraeg hwn. Cynigir y cwrs gan Brifysgol Bangor ac y mae'n gwrs llawn amser dros flwyddyn neu'n rhan amser dros ddwy flynedd.

Mae'r cwrs yn cyflwyno ystod eang o bynciau sy'n edrych ar gynnaladwyedd mewn cyd-destun trefol, gwledig ac ar lefel yr unigolyn. Bydd cyfle i astudio enghreifftiau o gynnaladwyedd trwy sawl cyfnod o waith maes.

Un o brif amcanion y cwrs meistr arbennig hwn yw ymateb i'r galw cynyddol sydd ymysg cyflogwyr yng Nghymru am unigolion gyda'r cefndir academaidd perthnasol a hefyd y ysyliau a'r hyder i gyfathrebu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd dwyieithog.

Cefnogir y cwrs gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Adnoddau Naturiol Cymru.

Am fwy o fanylion cysylltwch â mi:

Dr Paula Roberts, Darlithydd mewn Rheolaeth Amgylcheddol, Ysgol Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daaryddiaeth, Prifysgol Bangor

Yn gywir

Dr Paula Roberts

01248 382976 / p.roberts@bangor.ac.uk

Gwasanaeth Hawliau Lles.

Ydych chi'n cael y budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt?

A fydd y diwygio yn y gwasanaeth yn effeithio arnoch chi?

Ydych chi'n poeni am y newidiadau a all effeithio ar eich hawl Lwfans Byw i'r Anabl?

Os ydych yn ddall neu'n rhannol eich golwg, ac yn byw yng Ngwynedd, ac angn cymorth gan y tim Hawliau Lles, cysylltwch ag Ellen Lloyd ar 01248 353604 neu drwy e-bostio RNIBCymruWRT@rnib.org.uk

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50


- gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673



**CYNLLUN NEWYDD CYFFROUS I FRO YRECO
CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN**

Dychmygwch am eiliad neu ddau dirwedd ardal yr Eco heb unrhyw greadur byw (gyda dau goes hynny yw) erioed wedi troedio'r ynysoedd sy'n cael eu galw yn Brydain heddiw. O Fôn i Fynwy, o Gernyw i ogledd yr Alban, dim ond coedwigoedd trwchus o dderw ac onnen hyd at 1500 o droedfeddi uwchben lefel y môr (ia...bron hanner ffordd i fynyr Wyddfa). Breiddiaid,, elk (ie...mws) ac hyd yn oed ambell i arth fyddai'n mynychu'r coedwigoedd. Mae'r ffaith bod ein tirwedd yn hollol wahanol yn dweud fod hanes i bob cae, wal, "lump and bump" (fel dywed yr archaeolegydd), lôn, adeilad...popeth a welwn. Dyma yw man cychwyn prosiect newydd Cerdded a Darganfod Menter Fachwen sydd wedi ei ariannu gan Cyfenter (sydd yn buddsoddi arian i fentrau cymdeithasol) a'r person sydd wedi ei benodi fel cydlynnydd iddo yw'r ffotograffydd a darlunydd Gareth Roberts o Gallt y Foel. Mae gwaith Gareth yn adnabyddus gan ei fod wedi cyhoeddi mapiau hanesion bro Llanddeiniolen a Llanrug yn y gorffennol. Pwrpas y Cynllun yw i denu diddordeb cymaint o bobl a phosib, o bob dawn a chefnidir, i fynd i gerdded a darganfod y tirwedd o gwmpas gyda'r pwyslais ar yr 'lles iechyd'. Profiad bywyd ddaeth a Gareth i'r pwynt yma oherwydd iddo ddioddef trawiad ar y galon 10 mlynedd yn ôl yn 40 oed, a'r newyddion mai dim ond 6 wythnos oedd ganddo i fyw. Ond gyda gofal tîm o feddygon gwych ym Manceinion llwyddwydd nid yn unig i achub ei fywyd ond llwyddwyd i'w gael yn heini unwaith eto. Penderfynodd weithio tuag at hybu pobl i gerdded er lles eu iechyd. "Byddaf yn clywed dro ar ol tro bobl yn dweud mai y rheswm tydw nhw ddim yn mynd allan i gerdded ywun, tydw nhw ddim yn gwybod lle i fynd a dau....does dim byd i'w weld. Pwrpas y cynllun newydd a'r mapiau yw i gael gwared a'r myth yna yn gyfangwbl", meddai Gareth. A'r newyddion yw bod y Cynllun newydd yn paratoi cyfres o fapiau yn y

dyfodol agos yn cynnwys ail-fersiwn o un Llanddeiniolen, rhai newydd o Llanberis a'r Waunfawr ac eraill mor bell a'r Llŷn a Chonwy. Dechreuodd hyn i gyd drwy weledigaeth Cyngor Llanddeiniolen pan gomisiynwyd Gareth i gynhyrchu'r map gwreiddiol nol yn 2008. Nid yn unig bydd cyfres helaeth o fapiau newydd ar gael, mae Menter Fachwen yn brysuroi paratoi cartref i'r cynllun yn Nhŷ Caxton ar y Stryd Fawr yn Llanberis fydd ar agor y haf hwn. Bydd lle i bobl gasglu a hel gwybodaeth cyn mynd i gerdded gyda mapiau a llyfrau cerdded i'w brynu neu darllen. Ceir sgrin gyda'r wybodaeth tywydd diweddaraf. Hefyd, bydd modd i bobl brynu cynnyrch ffres i fynd i gerdded; a siop fydd yn gwerthu crefftau o weithdai Menter Fachwen a phobl leol. Oddi yno, bydd y cynllun yn trefnu rhaglenni o deithiau cerdded a darganfod, nid yn unig o Lanberis ond led-led ardal yr Eco, gweddill y sir ac weithiau tu hwnt. Ceir teithiau gyda themau hanesyddol, byd natur neu hyd yn oed ddarganfod y sir yn y nôs. Bydd rhai o'r teithiau yn fyr iawn gyda un o Eglwys Llanddeiniolen yn ddim mwy na thri-chwarter milltir o hyd. Ond hefyd bydd teithiau hir iawn i gerddwyr profiadaol. Trwy gyfrwng y Cynllun, ceir gwybodaeth am deithiau cerdded y bydd mudiadau eraill yn eu trefnu trwy'r sir. Yn y dyfodol agos bydd y Cynllun yn cyd-weithio gyda'r ysgolion i greu prosiectau a magu diddordeb y plant mewn hanes lleol. Mae cynlluniau ar y gweill i addasu'r mapiau ar gyfer y byd digidol ac mae Cyngor Conwy wedi dechrau eu haddasu ar gyfer i-pads yn barod. Bydd twristiaid hefyd yn elwa o'r gwasanaeth gyda gweithgareddau wedi ei trefnu ar y cyd a Chwmni Gwyliau Antur Celticos o'r Felinheli er enghraifft, ac yn y pendraw bydd y prosiect yn cynllunio llwybrau newydd gyda rhai Rufeinig, llwybr o Gaernarfon i Lanberis ac un arall efallai yn dilyn hanes chwarel Dinorwig dan sylw.



GWEITHGAREDDAU I'R YSGOLION



TEITHIAU GERDDED
DARGANFOD HANES LLEOL

Parhad LLYTHYRAU

Elidir, 40 Wolsey Road
Moor Park, Northwood

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eich dymuniadau gorau ar achlysur dathlu ein Priodas Aur.
Byddaf wrth fy modd yn derbyn yr Eco gan Helen, fy nghyfnither sydd yn byw wrth fy ymyl yn Llundain.
Mae Helen yn ferch i Mrs Betty Humphreys, Llanberis. Bydd Betty yn gofalu bod yr Eco yn dod yn ôl i Lundain efo Helen.
Mae Deiniolen a'r cylch yn annwyl iawn imi. Byddaf yn meddwl llawer am yr hen fro. Anfonwn ein cofion cynnes at bawb yn yr ardal.

Cartref Newydd i Fwrdd Snwcer Dinorwig.

Oherwydd fod Canolfan Dinorwig yn cau, dymuna Pwyllgor y Ganolfan gynnig y bwrdd snwcer – sydd o lawn faint, ac mewn cyflwr ardderchog – i ganolfan gyffelyb ym mro'r "Eco". Mae'r aelodau yn awyddus i eraill o drigolion yr ardal fwynhau chwarae snwcer arno fel y gwnaethant hwy dros y blynnyddoedd.
Os oes gennych ddiddordeb, yna cysylltwch, drwy lythyr pennawd eich canolfan neu glwb snwcer, a Sara Wood, Ysgrifennydd Canolfan Dinorwig, Dinorwig, Caernarfon. LL55 3EH erbyn 17 Mai.

I ddechrau ar bethau, mae sawl taith cerdded a darganfod wedi eu trefnu yn barod.

IAU 13 MEHEFIN:

TAITH GERDDED CWM Y GLO A BRYNREFAIL. 3 MILLTIR.
DECHRAU: MENTER FACHWEN AM 10 O'R GLOCH.

MERCHER 19 MEHEFIN:

TAITH GERDDED HANES EGLWYS LLANDDEINIOLEN.
HANNER MILLTIR.
DECHRAU: MAES PARCIO GORS BACH AM 2 O'R GLOCH.

IAU 27 MEHEFIN:


TAITH GERDDED LLANBERIS, 2 MILLTIR A HANNER.
DECHRAU: Y LAGWNS AM 10 O'R GLOCH.

Edrychwch allan am ragor o deithiau yn y dyfodol agos yn yr Eco.

CYSYLLTWCH A GARETH ROBERTS YN MENTER FACHWEN
AR 01286 872014.
www.menterfachwen.org.uk



Beca Elan - 2il yn y Sir



Blwyddyn 5 a 6 o flaen y Cynulliad yng Nghaerdydd.



Esyllt Mon a ddaeth yn 2il drwy Gymru

Noson Bingo Cafwyd noson Bingo'r Pasg lwyddiannus iawn cyn gwyliau'r Pasg, daeth nifer helaeth o blant i ennill toreh o wyau siocled. Diolch i'r Pwyllgor Rhieni am drefnu'r noson. Gwnaed elw o tua £300. Diolch i bawb a gefnogodd.

Gala Nofio Ysgolion Arfon Llongyfarchiadau i'r tîm nofio a ddaeth yn ail yn y gala nofio i ysgolion Arfon cyn y Pasg. Da iawn chi !!

Gŵyl Athletau Arfon Llongyfarchiadau i'r tîm athletau, sef Tomos, Iwan, Scarlett a Kreena, Bl 6; Meilir ac Iwan, Bl 5; Efa, Poppy a Jon Mill o flwyddyn 4 a ddaeth yn ail yn yr ŵyl athletau a gynhaliwyd yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon cyn y Pasg.

Dawns i Bawb Mae Desmina wedi bod yn cynnal sesiynau dawn i blant yr Adran Iau am gyfnod o

chwe wythnos. Cynigir cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn dawnsfeydd aml-ddiwyllynnol. Maent i gyd wedi mwynhau'r gwersi.

Noson Ddawns Bu plant blwyddyn 1, 2 5 a 6 yn cymryd rhan yn y Noson Ddawns yn y Galeri Caernarfon yn ddiweddar. Braff oedd gweld cynifer o ysgolion yn cymryd rhan.

Kerbcraft Diolch i Mai o adran y Cyngor am gynnal gwersi diogelwch y ffordd gyda disgyblion blwyddyn 1. Diolch hefyd i nain Efa a mam Tom am helpu.

Gwersi beicio Lefel 1 a 2 Diolch i Delyth, mam Esyllt, Gwion a Mabon am roi hyfforddiant beicio Lefel 1 a 2 i ddisgyblion blwyddyn 6.

Llongyfarchiadau i Esyllt Môn, Blwyddyn 6, am ddod yn ail drwy Gymru gyda'i gwaith celf yn Eisteddfod yr Urdd.

Bydd gwaith Esyllt i'w weld ym Mhabell Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro. Llongyfarchiadau hefyd Beca Elan a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Sir yr Urdd a'r grŵp bechgyn, sef Gwion, Meilir, Siôn Ifan, Iwan, Morgan ac Iolo a ddaeth yn drydydd yn y Sir. Da iawn chi i gyd!

Ymweld â Chaerdydd Yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg treuliodd 27 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau yng Nghaerdydd. Cawsant amser gwerth chweil gan ymweld â'r Pwll Mawr, Sain Ffagan, Canolfan y Mileniwm, Taith mewn cwch cyflym ar y Bae, Techniquet, Nofio, Bowlio Deg a chael gweld ffilm. Diolch i'r staff a fu'n goruchwylio'r plant a diolch hefyd i'r plant am eu hymddygiad rhagorol. Roedd yn bleser bod yn eu cwmni.

Noson Rhifedd Diolch i bawb a ddaeth i'r Noson Rhifedd yr wythnos hon.

Bu Mr Iolo Evans, athro arbenigol mewn Mathemateg, yn cyflwyno llyfryn i'r rhieni a chyflwyno'r Strategaeth Rhifedd Newydd. Cyflwynodd y Pennaeth y profion rhifedd enghreifftiol newydd o flwyddyn 2 i flwyddyn 6. Roedd pawb wedi cael budd o'r noson.

Y Cyngor Ysgol Mae'r aelodau wedi bod yn archebu offer a gemau ar gyfer plant yr Adran Iau. Mae 'na hen edrych mlaen am y goliau pêl-droed!!

Lori Ni Bydd y Lori Lyfrgell yn ymweld â'r ysgol yn ystod yr wythnos nesaf a chaiff pob plentyn ddewis llyfr am y tymor.

Digwyddiadau i ddod:

Gŵyl y Banc, Mai y 6ed

Cyfarfod Llywodraethwyr, Mai y 23ain

Hanner Tymor dydd Gwener, Mai y 24ail



O flaen 'Garreg Fawr' yn Sain Ffagan.



Tim Athletau a ddaeth yn 2il.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Genod Gwyrfai



Fel llawer o bethau da, roedd wedi dechrau dros botelaid o win ac wedi gorffen mewn tafarn.

Pan eisteddodd Wendy Jenkins, Siân Llwyd Jones a Jana Jones o gwmpas y bwrdd yn edrych ar y sefyllfa ym mhentref Waunfawr roedd pethau'n go ddu. Roedd côr y pentre wedi dod i ben a chyfleon i gymdeithasu'n prnhau.

Gyda Wendy Jenkins yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol y Moelwyn, cododd y syniad o sefydlu Parti Merched i'r pentre, a dyna oedd cychwyn Genod Gwyrfai.

Erbyn hyn mae'r grŵp, efo 20 o aelodau, yn ymarfer yn gyson yn nhafarn y Snowdonia Parc bob nos Iau. Maent yn canu amrywiaeth o ganeuon, o'r traddodiadol i ganeuon pop, a phob

un â rhyw dinc unigryw yn ei chyflwyniad.

Yn ôl Wendy, 'Mae 'na leisiau da yn y pentra, ac mae'n braf cael pawb at ei gilydd i ddatblygu'r caneuon efo'n gilydd.'

Dywed Pegi Talfryn, newydd-ddyfodiad i'r pentre, 'oni bai am y côr faswn i ddim wedi dod i adnabod yr holl bobl yn y pentre a theimlo'n rhan o'r gymuned.'

Bydd y côr yn perfformio am y tro cyntaf yn noson Plaid Cymru ar nos Wener, 27 Ebrill, yn Nhafarn y Snowdonia Parc. Bydd tocynnau ar gael yn y dafarn neu trwy ffonio'r ysgrifennydd ar: 01286 650092

Os hoffech wybod mwy am y côr cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Nia Griffith.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i deuluoedd yn y pentref ar enedigaeth babanod newydd i'r teulu.

Ganwyd merch fach, Leah Mai, i Charline ac Owain Rhys, Stad Llys y Waun, chwaer i Rhodri ac wyres i Jacqueline ac Allan, Stad Tŷ Hen.

Merch, Cadi Haf, a anwyd i Delyth a Rhys, Stad Llys y Waun, wyres fach i deulu Four Crosses.

Ganwyd chwaer fach, Loli Jên, i Cadi ac Eli, Cam Cyntaf, merch fach i Nia a Mathew Gossett.

Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceri a Nick Millington, Clyd y Coed, ar eu priodas yn ddiweddar.

Dymuno Gwellhad Dymunwn wellhad buan i Efan, mab bychan Maria a Dr Huw Gwilym, wedi iddo orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r teulu bach yn eu cartref newydd yn Ceunant.

Anfonwn ein cofion cynnes at Meira Turner, Collfryn, wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty ac hefyd at ei mam, Mrs Betty Hughes, sydd yn aros dros dro mewn cartref preswyl ym Methesda.

Croeso adref o'r ysbyty a phob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr Alun Ellis, Gorwel, wedi iddo ddisgyn yn ei waith.

Mae'n dda deall fod Mrs Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd, Betws Garmon, yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Dymuna Glenys ddiolch i bawb am y galwadau ffôn, y cardiau a'r blodau

a dderbyniodd ar ôl bod yn Ysbyty Broadgreen. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn. Diolch i Gwynfor am edrych ar ei hôl.

Anfonwn ein cofion at Mrs Betty Griffith a Mrs Llinos Dunwiddy. Mae'r ddwy yng nghartref nyrsio Penisarwaun.

Mae Mr Derek Pickering, Stad Tref Eilian, yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cynnes ato.

C y d y m d e i m l o Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y ddiweddar Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian gynt. Yn eu profedigaeth o'i cholli.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Joan Williams. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Aled, ac â'i merch, Gwyneth, a'r teulu yn eu colled fawr.

Cydymdeimlwn yn ddwys

â theulu y diweddar David Husband, Pant Gro, yn eu profedigaeth o'i golli yn ddiweddar.

Croeso'n 'Nôl Croeso i Lowri Huws, Argoed a Siôn, Llwyn Bedw yn ôl i'r Waun. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Preswylfa.

Dymuno'n Dda Mae arholiadau pwysig diwedd cyrsiau ysgol a choleg wrth y drws unwaith eto. Dymunwn y gorau i bobl ifanc y pentref sydd yn eu sefyll eleni. Pob hwyl i chi.

Adref o'r Ysbyty Mae'n dda deall fod Mrs Alice Hughes, Stad Bryn Golau, wedi cael dod adref wedi treulio cyfnod yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Hyderwn y byddwch yn teimlo'n well eto wedi cael dod yn ôl i'ch cynefin.

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

dafydd iwan a'r band
YN FYW!

DOLBADARN
LLANBERIS

NOS
GADWRN

mai 11

Tocynnau (£7.50) ar gael ar y drws neu o flaen llaw drwy gysylltu ag Eurig 07930148999 neu Gwilym 07979740676. Gostyniad o 20% i grwpiau o 5! **Elw tuag at apêl cancer lleol.**

Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist, Llandinorwig Cyfarfu'r Gymdeithas yn yr Eglwys ar nos Lun, Ebrill 8ed. Ar ôl mynd drwy'r Gwasanaeth Dechreuol, cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Mrs Rhianwen Jones a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli Hefin, hefyd anfonwyd cofion cynnes at Mrs Eurwen Roberts sydd wedi derbyn llawdriniaeth, ac at yr aelodau eraill oedd yn methu ymuno â ni.

Croesawyd atom ein gwraig wadd am y noson, sef Mrs Ann Parry Jones, Llanrug. Difyr iawn oedd gwrandio arni yn sgwrsio am ei theulu ac fel y bu farw ei thad yn ifanc gan gadael gwraig, pump o blant ac un, hyd yn oed, heb ei eni. Roedd hyn yn golled erchyll iddynt fel teulu ond roedd eu mam yn wraig ddewr a brwdfrydig iawn. Gweithiodd yn galed i gael dau pen llinyn ynghyd a chawsant fagwraeth dda a chartref hapus a chysurus. Drwy hyn i gyd, cafodd y chwech ohonynt fynd i'r Coleg Normal ym Mangor a throi allan, bob un ohonynt, yn athrawon. Maent hyd heddiw yn ddiolchgar ac yn edmygu eu mam am ei gwroldeb a'i chariad tuag atynt, ac am roi y ffasiwn gyfle a sylfaen iddynt mewn bywyd.

Diolchwyd i Mrs Parry Jones am noson ddiddorol a chartrefol gan Mrs Edith Thomas ac ar ôl paned a sgwrs diweddwyd drwy gydadrodd Y Gras.



Brenhines Gŵyl Deiniolen 2013. Brenhines Glain, Tywysoges Medi, Tywyswr Mawr Gruffudd, Merch y Blodau Shanon, Tywyswr Bach Aarron.

Dymuna Mrs Eurwen Roberts, 47Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a gweinyddesau ar ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd, ac

i ferched Cymorth Cartref am eu gofal a'u cefnogaeth. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Ceinwen, Glyn a Rhianwen, Meurig, Paul a Linda ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion yr ardal a thu allan am yr arian, cardiau a'r galwadau ffôn a fu'n gysur mawr yn ystod y cyfnod anodd ar ôl colli Hefin mor sydyn, Tad a Mab cariadus, gofalus ac annwyl.

Diolch i'r Parchedig Dr Carol Roberts a'r Canon Idris Thomas am eu gwasanaeth yn yr Eglwys ac Amlogsgfa Bangor. I Dr William Munro am wasanaethu ar yr organ ac i Mrs Eleanor Morris, y Warden. Diolch yn arbennig i Dylan a Meinir, Tros-y-waen am eu gwasanaeth a'u trefniadau trylwyr a phroffesiynol. Diolch o galon.

Y Gymdeithas Undebol Cynhaliwyd y Gymdeithas nos Lun, Mawrth 25 yn Nhŷ Elidir. Llywydd y noson oedd y Parchedig John Pritchard. Croesawodd aelodau newydd, sef Mrs Kathleen Davies, atom ac hefyd dymunodd wellhad buan i Mrs Eurwen Roberts a Mrs Myfi Evans oedd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd ond erbyn hyn yn ôl gartref.

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mrs Bethan Wyn Jones, Talwrn, yn sôn am blanhigion meddyginiaethol. Diolchwyd iddi yn gynnes gan Mr Brian Price.

Cydymdeimlo Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r

diweddar Hefin Jones a fu farw'n frawychus o sydyn yn ddiweddar. Mae ein cofion gyda chwi i gyd yn ystod yr amser anodd yma.

Lleisiau Llanbabs Llongyfarchiadau i barti canu Lleisiau Llanbabs ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd eto eleni.

Talu am yr Eco Os dymunir talu am gopiau o'r Eco am y flwyddyn nesaf, gofynnir yn garedig i chwi ddanfôn yr arian i ohebydd y pentref neu gysylltu i drefnu ymhellach.

Cais am Newyddion Unwaith eto, gofynnir i drigolion a chymdeithasau'r pentref am straeon neu newyddion i'w roi yn nhudalennau'r Eco. Mae nifer o weithgareddau yn digwydd yn y pentref ac mi fyddai'n braf gallu llenwi tudalen yn sôn am lwyddiant ein trigolion.

Cymanfa Annibynwyr

Cylch Deiniolen, Cwm-y-glo, Llanberis a Phenisarwaun

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Coch, Llanberis, am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Mai 12. Bydd plant yr Ysgolion Sul yn ymuno i ganu gyda Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Ceir sgwrs gan Andrew Settatrete.

wneir casgliad at Gynllun EFE. Gellir parcio ceir ar fuarth Ysgol Dolbadarn.

Taer erfynnir am gefnogaeth y plant a'r rhieni.

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, gyda Paula Owen, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd a Carys Ofalus.

Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi yn dysgu am bwysigrwydd diogelwch y ffyrdd

Cafodd disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, ymweliad arbennig gan y gath enwocaf yng Ngwynedd, Carys Ofalus yn ddiweddar.

Bu Carys Ofalus, cymeriad hyrwyddo diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd, draw yn yr ysgol yn diolch i ddisgyblion blwyddyn 1, dosbarth Mrs Jackie Warrington, am eu gwaith caled o rannu'r neges bwysig am gadw'n ddiogel ar y ffyrdd gyda gweddill yr ysgol.

Cynhaliwyd gwasanaeth gan ddisgyblion blwyddyn 1 i holl ddisgyblion yr ysgol i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch y ffyrdd ar sail yr hyn a ddysgwyd ganddynt gyda Mai Jones, Cydlynnydd y cynllun Kerbcraft yn ddiweddar.

Mae'r cynllun Kerbcraft yn ddull poblogaidd ac effeithiol o hybu diogelwch y ffyrdd i ddisgyblion ifanc. Mae'r plant yn cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt dderbyn hyfforddiant ymarferol yn rheolaidd ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

Fel rhan o'r cynllun dysgodd y disgyblion Reolau'r Groes Werdd gan basio'r wybodaeth bwysig ymlaen i weddill disgyblion yr ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

'Mae mwy o gerbydau nag erioed ar ein ffyrdd ac mae sicrhau fod pawb yn ddiogel ar ein ffyrdd yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

'Rwy'n falch ein bod wedi gallu sefydlu'r cynllun Kerbcraft yn Ysgol Gwaun Gynfi er mwyn helpu'r plant i ddysgu ac i fod yn ymwybodol o'r peryglon sydd ar ein ffyrdd.'

Busnes Newydd yn Neiniolen?

Mae cwmni o'r enw Shoker 11 Ltd wedi prynu'r eiddo a adnabyddir fel Birmingham House ar y Stryd Fawr yn Neiniolen. Y bwriad yw sefydlu busnes Indian Takeaway a Parlwr Pizza yno. Mae panel grantiau Cyngor Gwynedd wedi trafod yr ymholiad, ac wedi cysylltu efo'r Cynghorydd lleol, Elfed Williams i ofyn barn y gymuned leol. Mae'n bosib y bydd angen caniatad cynllunio i newid defnydd yr adeilad. Yn y cyfamser, mae'r Cynghorydd Elfed Williams am glywed barn y gymdogaeth leol. A oes galw, ac a oes cefnogaeth i'r math hwn o ddatblygiad yn y pentref? Dyma gyfle i bobl y pentref ddatgan eu teimladau. Cysylltwch efo'ch Cynghorydd lleol i fynegi eich barn.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch (sydd ar hyn o bryd yng nghartref Nyrsio Penisarwaun) yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Sarah Lewis.

Marwolaeth Yn dawel wedi gwaeledd byr yng nghartref ei merch yn Neiniolen, bu farw Mrs Margaret Olwen Jones (Megan) 21 Dôl Afon, yn 87 mlwydd oed. Ganwyd Megan a threuliodd ei phlentyndod ym Mhen Clogwyn, Allt Goch, ac yn Cwm y bu fyw am ran helaethaf o'i bywyd. Roedd yn gymeriad siriol, llawn hiwmor, cymwynasgar a charedig. Hoffai fynd at ei gwyliau ond ei phleser mwyaf oedd ei chartref a'i gardd. Bu ei hangladd fore Gwener, 19 Ebrill, gyda gwasanaeth cyhoeddus ar ei haelwyd yna rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ganon Idris Thomas. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Robin, Meredydd, Cledwyn, Marella a Llinos, ei wyrion, wyresau, gor-wyrion, gor-wyresau, ei chwaer Lowri, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Feed My Lambs, Caernarfon, bnawn Mawrth, 16 Ebrill. Croesawodd Auriel Howells bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd mis Mawrth a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Materion perthnasol - Bydd sêl Enfys yn cael ei chynnal ym Mangor ar 28 Mehefin rhwng deg a hanner dydd. Lliw y gangen fydd melyn.

Croesawodd Auriel ein siaradwr gwadd, sef Kevin Tiernen o'r Gwasanaeth Tân. Rhoddodd gyngor arbennig i ni sut i ymdopi be bai tân yn ein cartrefi ac mor bwysig yw cael larwm mwg. Gwerthfawrogwyd ei gyngor yn fawr. Diolchwyd i Kevin gan Mrs Margaret Latham. Margaret a Joyce oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Kathleen Jones Diolchwyd iddynt gan Auriel. Terfynwyd trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 21 Mai.

Cymanfa Annibynwyr

Cylch Deiniolen, Cwm-y-glo, Llanberis a Phenisarwaun

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Coch, Llanberis, am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Mai 12. Bydd plant yr Ysgolion Sul yn ymuno i ganu gyda Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Ceir sgwrs gan Andrew Settatree.

Gwneir casgliad at Gynllun EFE. Gellir parcio ceir ar fuarth Ysgol Dolbadarn.

Taer erfynnir am gefnogaeth y plant a'r rhieni.

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Priodas Dymunwn yn dda i Gareth a Donna, Annedd, ar eu priodas yn Eglwys Llanddeiniolen ar Ebrill 19eg. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau.

Pen-blwydd arbennig Llongyfarchiadau i Lowri Ceiriog, Erw Wen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Dymuniadau gorau i ti yn y dyfodol.

Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau mawr i Alwyn a Nia Jones, Y Dderwen, ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Babi newydd Llongyfarchiadau mawr i Hefin a Tegwedd a'r teulu, Cefn Gof, ar enedigaeth merch fach newydd, Eldra Glain. Dymuniadau gorau i chi fel teulu, ac yn arbennig i Eldra.

Tynfa misol. Dyma ganlyniadau y dynfa am fis Ebrill: £40 Aled Jones, 9 Rhes Glangwna (46); £25 Mark Bee (74): £15 Dan Jones, Gwêl y Grug (14); £5 Rosie Lloyd, 2 Rhos Bach (93).

Gwasanaethau y Capel

Mai 5ed: 2 o'r gloch, Y Gwenidog, y Parch Marcus Robinson.

Mai 19eg: Sul y Pentecost, 10 y bore Mr Edward Morus Jones.

Marathon Paris Llongyfarchiadau i Geraint Roberts (Cefn Rhos Isaf gynt) am redeg Marathon Paris ar Ebrill 7ed gan godi arian tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

Clwb Merched Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Gwilym Evans ar Fawrth 21ain yn adrodd hanes cychwyn a datblygiad cwmni Oel Morris Evans yn Ffestiniog yn fenter busnes eithriadol o lwyddiannus yn y cyfnod. Os oes gan unrhyw un botel o'r oel yn cuddio yn y tŷ daliwch eich gafael arno, mae yn brin iawn erbyn hyn! Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r clwb am 8 o'r gloch nos Iau, Ebrill 25, pan fydd nifer o'r aelodau yn sgwrsio am destun o'u dewis nhw.

Y Cae Chwarae Diolch i bwyllgor gweithgar y cae chwarae, mae offer chwarae newydd ar gyfer y plant wedi eu harchebu au gosod yn barod erbyn tywydd braf yr haf. Pob hwyl i chi blant.

Offerynwyr o Fri Llongyfarchiadau i blant o Gaeathro fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Ieuencid Prydain ym Manceinion ar ddydd Sul, 14eg Ebrill. Siôn Ynyr, Siôn Dafydd, Malan Hughes a Martha Ceiriog yn rhan o fand Ysgol Bontnewydd ddaeth yn fuddugol gan guro chwe band arall yn y dosbarth i chwaraewyr sydd newydd gychwyn; a Dafydd Eryl ac Elan Haf Jones gyda Band Iau Gwynedd a Môn a ddaeth yn ail allan o ddeuddeg band yn y dosbarth Iau.

Cylch Meithrin Llongyfarchiadau mawr i Gylch Meithrin Bontnewydd sydd wedi derbyn Sêl Cylch Rhagorol. Mae tri o blant bach Caeathro yn mynychu'r Cylch: Rosy, Beca, a Tomos. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cofrestru eich plentyn yn y Cylch, cysylltwch â Mrs. Julia Hughes ar e-bost julia_anne@btinternet.com

Gwella Braf yw gweld Myfi Evans, Sŵn yr Awel, wedi gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, yn gallu mynd a dod unwaith eto ac wedi dechrau gyrru ei cherbyd. Erbyn y daw y rhifyn yma o'r Eco allan o'r wasg bydd yn gallu ailafael yn ei gwaith o fynd â'r Eco o dŷ i dŷ, fel ag y mae wedi ei wneud am rai blynyddoedd cyn mynd yn wael. Byddaf i yn bersonol yn falch iawn o dy weld yn gallu ailafael yn y gwaith. Diolch am dy ymroddiad i wneud y swydd yma.

Dymunwn fel ardal adferiad iechyd llwyr iti. Gwylia ar ôl dy iechyd a phaid â gwneud gormod yn rhy fuan.

Diolch yn fawr iti am y cyfan yr wyt yn ei wneud hefo'r Eco.

Cynghorydd Wel! Y mae yn flwyddyn ers y mae Elfed Wyn Williams yn Gynghorydd dros yr ardal yma. Gwaith braf yw gallu dy ganmol a diolch iti am y gwaith gweladwy ac anweladwy yr wyt wedi ei wneud yn ystod dy flwyddyn gyntaf. Mae wedi cynnal syrjeri yma yn Ninorwig unwaith pob mis yn ystod y flwyddyn a, hyd yma, mae eto i gael syrjeri wag, ac wedi cael ambell un brysur iawn.

Mae yn wir nad yw wedi llwyddo bob tro ond gallaf eich sicrhau nad bai Elfed ydyw hynny. Mae ganddo un polisi da iawn, sef bod yn rhaid i'r Cyngor roi pob dim ar bapur pan maent yn addo gwneud pethau iddo.

Dal ati, Elfed. 'Dyfal donc a dyr y garreg'. Diolch yn fawr iawn iti a dal ati i gadw dy dydd Sabath yn Sanctaidd.

Gwasanaethau Capel Tanycoed

Mai 5:	11.15 a.m. – Y Parchg John Pritchard
Mai 12:	11.15 a.m. – Rhodri Glyn
Mai 19:	11.15 a.m. – Y Parchg John Pritchard
Mai 26:	11.15 a.m. – Y Parchg Derrick Adams

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Teleri, Tomos a Rhys, Melvyn, Prydwen, David John, Iwan a Sian a'r teulu ar golli gŵr, tad, mab a brawd arbennig iawn, Alan Wyn Pritchard. Hogyn o Nant oedd Alan - wedi ei fagu yn Llys Awel. Roedd yn ddyn hawddgar, poblogaidd, annwyl ac arbennig iawn ac yn ysbrydoliaeth i gymaint. Bydd bwlch enfawr ar ei ôl.

ER COF AM ALAN PRITCHARD

Un gwylaidd gododd galon – ni gwynwyr,
drwy gynnal sawl safon.

Gŵr welodd werth gorwelion,
ar oriau llesg, mynnai'r llon.

RLLJ

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

ARVONIA COACH TOURISM cpt



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

Diolchiadau Fe ddymuna Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, ddiolch o galon i bawb a fu mor ofalus a charedig wrthi pan gafodd ddamwain ar y stryd yn Llanberis ddydd Gwener, Ebrill 5. Diolch yn fawr iawn.

Priodas Llawenydd yw anfon llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau i Owain Gwyn, mab Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir, ar ei briodas â Delyth Morris o Fethel ar Fawrth 28ain. Bydd y ddau yn cartrefu ym Mangor.

Priodas Aur Llongyfarchwn yn gynnes iawn Edfryn ac Ada Jones, Ty'n Twll, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 30ain. Daeth aelodau o'r teulu a ffrindiau ynghyd i ddathlu i Westy'r Bull ym Mhentraeth a dymuna Edfryn ac Ada ddiolch yn arbennig i David ac Elaine a Robin a Chris am drefnu'r cyfan. Mae eu diolch hefyd yn mynd i deulu a ffrindiau pell ac agos am eu dymuniadau da, cardiau ac anrhegion dderbyniasant ac a wnaeth yr achlysur yn un mor arbennig. Diolch o galon i bawb.

Priodas Ddiemwnt Estynnwn longyfarchiadau arbennig i Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Cafwyd dathliad hapus gyda'r teulu yn ymgynnull yn y cartref a mwynhau lluniaeth wedi ei baratoi gan Pantri, Llanberis. Mawr yw diolch y ddau am drefniadau'r diwrnod ac i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau da, cardiau, blodau a'r rhoddion dderbyniwyd. Mae ein cofion

yn mynd at Euronwy gan iddi orfod mynd i Ysbyty Gwynedd yn fuan wedi'r dathliad. Ein dymuniadau gorau am wellhad buan.

Sefydliad y Merched Anne a Raymond Arkle oedd siaradwyr gwadd cyfarfod Mawrth o'r gangen. Dan yr enw 'Jasper Sparkle' dangoswyd y ddawn oedd ganddynt i greu gemwaith o hen lwyau arian a oedd yn werth ei weld. Cafwyd arddangosiad o sut yr oeddynt yn creu modrwyau a chafwyd cyfle i werthfawrogi amrywiol emau yn eu casgliad.

Ar Ebrill 10fed, cynhaliwyd Cynhadledd Cymru yn y Venue, Llandudno. Ar noswyl y Gynhadledd mynychodd nifer o'r aelodau gyngerdd gydag eitemau cerddorol a llafar wedi eu trefnu gan Ranbarth Gwynedd/Meirionnydd. Roedd noson y gangen leol ar Ebrill 18fed yng ngofal Anita Long, Tan yr Onnen, pryd y bu yn arddangos crefftwaith o ddylunio a chreu. Cafodd pawb gyfle i ddylunio a chreu clawr llyfryn dan ei gofal. Yn ystod y mis hefyd cyfarfu Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Cafwyd cyflwyniad gan Ken Jones, Llanberis, Ysgrifennydd Cymdeithas Cleifion Aren Ysbyty Gwynedd. Fe drafodwyd y pwysigrwydd o lenwi Cofrestr Rhoddwyr Organau GIG ac eglurodd y trawsnewid oedd ym mywydau pobl yn dilyn trawsblaniad. Hefyd cafwyd cyflwyniad gan Neville Jones, Canolfan Bwyd Cymru, Bodnant. Adroddodd sut y bu i adeiladau fferm

Bodnant gael eu haddasu a'u datblygu ar raddfa helaeth. Yng Nghanolfan Bwyd Cymru mae siop gigydd, becws, llaethdy, caffi, tŷ bwyta ac ysgol goginio wedi eu sefydlu lle cynhelir nifer o weithgareddau. Mae i'r oll o'r cynnyrch darddiad lleol a phopeth wedi ei greu yn y Ganolfan. Cafwyd cyfle ar y terfyn i flasau caws neilltuol o flasus o'r llaethdy a thamaid o dorth arbennig o'r becws.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 16eg pryd y trafodir yr Argymhellion i'r Cyfarfod Cenedlaethol. Cofiwch hefyd ddod a'ch hoff rysait a thamaid i'w brofi i'r cyfarfod.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd Y Gymdeithas: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am y tymor, nos Iau, Ebrill 11eg.

Croesawyd yr aelodau i dymor newydd o weithgareddau gan Gadeirydd y noson, Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Roedd y myfyrdod yn seiliedig ar ddarnau o'r Ysgrythur yn ymwneud â meddyginiaeth

fel rhagarweiniad i destun y noson. Estynnwyd croeso cynnes i'r Canon Idris Thomas, Deiniolen, i roi sgwrs am fywyd a gwaith y meddyg arbennig Dr Mills Roberts - ei gysylltiadau a'i gyfraniad neilltuol fel meddyg yn Ysbyty Chwarel Dinorwig. Gwerthfawrogyd y sgwrs gan bawb a chafwyd cyfle i adrodd rhai atgofion drosglwyddwyd dros y blynyddoedd gan nifer o'r aelodau.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 9fed, yng nghwmni Eifion Roberts, Llanberis. Y Cadeirydd fydd Gwyn Hefin Jones, Rhandir.

Cymdeithasfa'r Gogledd: Bu Lowri Roberts Williams yn un o gynrychiolwyr Henaduriaeth Arfon yn y Gymdeithasfa a gynhaliwyd yng Nghapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog ar 23ain a'r 24ain o Ebrill.

Plygu'r Eco Tro Brynrefail fydd plygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Gobeithiwn y dewch yn llu fel arfer ynghyd i'r Caban bnawn Iau, Mai 30ain.

- Oedfaon Mai am 5.30 yr hwyr**
5: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
12: Mrs Glenys Jones, Pwllheli
19: (Pentecost): Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr
26: Mr J.O. Roberts, Bethesda.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cist Gymunedol

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,500
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a gweithgareddau
egniol newydd neu
ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianedobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk

GWASANAETH GARDDIO
OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Clwb Bro Bethel Cafwyd pnawn hynod o ddifyr y mis yma a hynny yng nghwmni Gareth Roberts, Deiniolen. Fe'i croesawyd gan Lywydd y Clwb, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, a bu'n sgwrsio yn gartrefol braf, yn sôn i gychwyn am yr amrywiol waith roedd wedi ei ddilyn dros nifer o flynyddoedd. Ei brif ddiddordeb ydi cerdded, yn enwedig llwybrau hanesyddol a thestun ei sgwrs, gyda chymorth lluniau, oedd 'Cerdded a Darganfod Hanes Teithiau'.

Cawsom hanes ei daith yn cerdded o Gaernarfon i Gaer ar hyd y ffordd Rhufeinig i godi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon. Mae o hefyd yn ffotograffydd o fri a dangosodd nifer o luniau trawiadol iawn a dynnwyd ganddo yng nghanol nos. Cyn gorffen, bu'n siarad am y mapiau lliwgar y bu'n gyfrifol am eu cynhyrchu, cyfres sydd yn boblogaidd iawn yn olrhain hanesion lleol ac ail ddarganfod adeiladau diddorol yr ardal. Diolchwyd iddo am rannu ei brofiadau gan Geraint Elis. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ffestri Cysegr pnawn Mawrth, Mai 7fed. yng nghwmni Dylan Parry, Caernarfon. Gofynnir i bawb sydd am fynd ar y wibdaith flynyddol ddychwelyd y ffurflen bwyd a'r arian i Ann Ellis Williams neu Ivy Wright erbyn y cyfarfod nesaf.

Cymdeithas Lenyddol Undebol I ddiweddu gweithgareddau am eleni daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i swpera yn Nhafarn y Bachgen Du, Caernarfon. Braf oedd

cael gwledda a chymdeithasu ymysg cyfeillion. Diolchwyd i Nora, Sheila a Glenys am yr holl drefniadau a diolch i Derfel, Bysus Rhiwlas, am ein cludo ni yno, ac yn ôl wedyn. Bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn ailgychwyn ym mis Hydref.

Capel y Cysegr - Cyfeisteddfod y Chwiorydd Diolch i'r merched a fu'n casglu yn ddiweddar er budd Cyfeisteddfod y Chwiorydd. Braf yw cael datgan fod cyfanswm y casgliad am eleni yn £222.

Diolch Dymuna Marjorie Roberts, Tŷ Newydd, ddiolch yn fawr iawn i'w ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion, y galwadau ffôn a'r blodau hardd a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn arbennig iawn i Myfanwy a Martyn. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Eiriona Williams, 7 Bro Rhos, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra roedd yn Ysbyty Gwynedd a hefyd ar ôl dod adref. Diolch am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr iawn.

Diolch Mae Nan Owen, Berwyn yn diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cymwynasau iddi yn ystod ei gwaeledd diweddar ac yn arbennig i Meirwen Jones, Glanllyn a Judith Jones, Gwelfor am eu cymwynasau lu. Dymuna ddiolch hefyd i athrawon Ysgol Sul Y Cysegr am yr anrheg hardd a'r swper allan yn y Gardd Fôn ar achlysur ei hymddeoliad o fod yn athrawes Ysgol Sul.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Ebrill nos Fercher, 17fed o Ebrill, yn festri'r Cysegr dan lywyddiaeth Glenys Griffith.

Llongyfarchwyd Delyth, merch Edwina ar ei phriodas ddiweddar ag Owain Gwyn, dymunwyd pob hapusrwydd i'r ddau. Balch iawn oeddem o gael llongyfarch Alys Jones ar ei herthygl yn y rhifyn cyfredol o'r Wawr. Estynnwyd ein cofion at Elizabeth Evans sydd ddim wedi bod yn dda'n ddiweddar gan edrych ymlaen i'w gweld yn ôl yn y gangen yn fuan. Bu Glenys ac Eirlys mewn noson o ddistawrwydd nodedig ac mae'r arian a gesglir yn mynd at CLIC, elusen cancr plant.

Ein gwraig wadd oedd Anna Jane Evans, Cyd-lynydd Gogledd Cymru o Cymorth Cristnogol. Cafwyd sgwrs, ffilm a chwis hynod ddifyr ac addysgiadol ganddi am waith Cymorth Cristnogol a lle pwysig masnach deg i'r gwledydd tlawd. Dangosodd fel yr oedd rhoi tâl teg am nwyddau wedi newid llawer o gymunedau trwy roi mwy o arian i bobl fedru fforddio rhoi addysg i'w plant, gwella ffyrdd, cyfleusterau meddygol ac offer i ysgolion. Eglurodd arwyddocâd yr ymgyrch ddiweddaraf - 'Mae digon o fwyd I bawb OS--' Pwrpas yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth ar sut y gellid gwella bywyd yn y gwledydd tlotaf Os- buasai'r

gwledydd cyfoethog yn rhoi mwy o help i'r gwledydd tlawd. Os- buasai'r cwmnïau mawr ddim yn dal i gymryd tir ffermio yn y gwledydd tlawd. Os- buasai'r cwmnïau mawr yn talu eu siâr o drethi yn y gwledydd tlawd ac Os- buasai'r gwledydd cyfoethog yn fyw tryloyw a gonest wrth ddelio â'r gwledydd tlawd.

Bwriedir cerdded o Ynys Enlli i Lanelwy ddechrau Mehefin i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch cyn mynd i Iwerddon lle mae'r C8, y gwledydd cyfoethocaf yn y byd yn cyfarfod. I orffen y noson cawsom weld ffilm o Gill Griffiths, ein Llywydd Cenedlaethol, ar ymweliad ac Ethiopia i weld project Cymorth Cristnogaeth mewn ardal yno.

Diolchwyd i Anna Jane gan Gwyneth Jones, ac fe brynodd nifer dda o'r aelodau o fwrdd cynnyrch Masnach Deg ar y noson. Roedd y baned yng ngofal Gwyneth Williams gyda Eirlys Sharpe ac Elizabeth Evans yn helpu. Enillwyd y raffl gan Anwylyd Jones. Bydd y cyfarfod nesaf yn festri'r Cysegr ar Mai 8fed, pryd cawn groesawu Cadi Iolen, curadydd yn yr Amgueddfa Lechi, Llanberis.

A wnaiff pawb sy'n dod i gyfarfod Mehefin ddod â'r tâl o £15 am ybwffe yng Nwesty'r Fictoria, Porthaethwy, efo nhw i gyfarfod mis Mai.

CEUNANT Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

Cydymdeimlad Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Helen Parry, Morwel, Ceunant, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Evan Parry yn ddiweddar, a hefyd at Einir a Gwenno a'u teuluoedd hwythau.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Mrs Helen Parry,

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



Llyn Nantlle

Llwyddiant y dyn lluniau

Llongyfarchiadau i Iwan Williams o Llanrug ar ennill print du a gwyn gorau'r flwyddyn yng nghystadlaeth Cymdeithas Ffotograffig Gogledd Cymru. Yn ychwanegol enillodd ei brint o Llyn Nantlle wobwr llun gorau'r flwyddyn yn mhob categori yn ei glwb yng Nghaernarfon. Yn amlwg cafodd beth o ddawn ei dad, Clifford, ond gyda chamera ac nid hefo brwsh arlunio. Brodor o Llanrug gydol ei fywyd ydi Iwan ac mae ei gariad at ei fro yn amlwg yn ei ddelweddau cain. Dechreuodd ei ddiddordeb pan roddwyd camera coleg yn ei law yn y

Normal a'i anfon allan gyda'r gorchymyn- 'tynna lynia'. O gael camera digidol fe aeth ati o ddifri a chael canlyniadau hynod ac arbennig. Os am weld delweddau o'i gynnyrch ewch i'w wefan - www.lluniau.iwan.co.uk neu ewch draw i oriel Llun Mewn Ffrâm ym Mhenygroes a'u gweld go iawn. Mae ganddo rhai printiadau yng Nglynllifon hefyd. Hefyd, mae arddangosfa o luniau aelodau Clwb Camera Caernarfon yn cael eu harddangos ym Mynydd Gwefru o Ebrill 28 hyd at Fehefin 29 2013. Mynediad am ddim a ddisgwylir bydd tua 100 o brintiau o bob math o destunau i'w gweld. Croeso cynnes i bawb.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoeidd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Merched y Wawr

Rhanbarth Arfon

Is-bwyllgor er Budd yr Anabl
Cynhelir Ffair Haf yng
Nghanolfan Ebeneser,
Caernarfon, dydd Gwener,
Mehafin 7fed rhwng 10 a 12 o'r
gloch. Mae nifer dda o stondinau
a rafflau ar eich cyfer. Pris
mynediad yn £1 yn cynnwys
paned o de neu goffi. Dowch i'n
cefnogi a chael sgwrs ddifyr yr un
pryd.

Yr holl elw yn mynd tuag at @
CLIC.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255




**SWIGOD
&
SEBON**

SYCHLANHAU

**Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon**

Gwasanaeth Golchi a Smwddio

**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**



Eglwys Santes Helen

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd yn Eglwys Santes Helen ar fore Sul olaf mis Mawrth i ddatlu'r Pasg. Y Pasg yw'r ŵyl bwysicaf o'r holl wyliau sy'n cael eu dathlu gan Gristnogion ac un sy'n llawn gobaith a llawenydd. Roedd y gwasanaeth yn un llawen a llawn gobaith ond eleni roedd yna hefyd deimlad o dristwch ynghlwm wrtho, oherwydd y gwasanaeth y bore hwnnw fyddai'r olaf i'r Parchedig Lloyd Jones fel Ficer y Plwyf. Penodwyd y Parchedig Lloyd Jones yn Ficer ar blwyfi Llanfair-is-gaer, Llanddeiniolen a Phenisa'r waun yn y flwyddyn 2008, yn dilyn cyfnod yn Ficer Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg. Bu hefyd yn Ddeon Bro Deoniaeth Arfon o 2009 hyd at 2012.

Yn dilyn cyfnod sabothol dros y tri mis nesaf, bydd y Parchedig Lloyd Jones yn cael ei sefydlu yn ei ofalaeth newydd fel Rheithor ar nifer o eglwysi sy'n rhan o ardal weinidogaethol newydd yng Nghantref Uwch Gwyrfa. Bydd ef a'i deulu yn ymgartrefu yng Nghlynnog Fawr.

Dymunwyd yn dda iddo ar ddechrau'r gwasanaeth gan y Canon Tegid Roberts a mynegwyd diolchgarwch diffuant y plwyf i'r Ficer gan y Warden, Mr W.H. Williams, a gyflwynodd stola wen iddo yn anrheg fel arwydd o werthfawrogiad y plwyfolion am ei weinidogaeth glodwiw yn eu plith.

Cronfa'r Pensiynwyr-Enillydd y bêl bonws mis Mawrth oedd Mrs Heddwen Hughes gyda rhif 33. Llongyfarchiadau.

Dymuniadau gorau i Henry a Phil yn eu cartref newydd yn 25, Bryn Tirion. Dyma ddiwedd cyfnod hir iawn, gan fod y teulu wedi byw yn rhif 8, Bryn Tirion ers 54 o flynyddoedd!

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Rhedeg Traws Gwlad – Nos Iau Ebrill 18fed cafodd amryw o blant BL3 i 6 gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth rhedeg Traws Gwlad ar gyfer Ysgolion Gwynedd yn Y Faenol. Llwyddodd Georgia Parkinson, Abbi Parkinson ac Efa Baines i orffen yn y deg uchaf, Llongyfarchiadau! Clod hefyd i bawb arall a fynychodd sef, Twm Herd, Aron Roberts, Ioan Williams, Enlli Williams a Mabli Baines.

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Pwyllgor Neuadd Diolchwyd i bawb a gefnogodd Noson Miri'r Pasg. Bu'n noson lwyddiannus a chymdeithasol iawn. Diolch i Elinor a Susan am eu gwaith caled yn beirniadu'r amrywiol gystadlaethau. Tynnwyd y Clwb Cant ar y noson a balch ydym o gael datgan fod gennym 17 o aelodau newydd – mae croeso mawr i aelodau newydd eraill – 50c y mis neu £67 y flwyddyn neu drwy Archeb Banc.

Cydymdeimlir yn ddwys â Myfanwy a Dic, Tawelfa, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid annwyl a ffraeth.

Cynhelir 'Miri Mai' ar nos Iau, Mai 23 am 6.30 yn y Neuadd Gymuned – noson o gemau, peintio wyneb, stondinau a raffl. Bydd paned ar gael a chŵn poeth ar werth am 50c. Felly dowch yn llu i gymdeithasu unwaith yn rhagor gan obeithio y bydd y tywydd yn ffafriol.

Sioe WCW a Swyn yr Ardd – Treuliodd plant dosbarth y Babanod fore hwyliog yn Neuadd Goffa Felinheli bore dydd Iau Ebrill 25ain. Roeddent yn ffodus o gael mynd i weld y Sioe hwyliog a lliwgar yma a chafwyd amser braf yng nghwmni plant o wahanol ysgolion.

Gwasanaeth Boreol – Croesawyd Mr Andrew Setatree i'r Ysgol bore dydd Mawrth Ebrill 30ain i gynnal y Gwasanaeth.

Eisteddfod bentref 2013
Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener, Gorffennaf Sed am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir Noson Bingo ar nos Iau, Mai 16 gyda chyfle i rannu Testunau'r Eisteddfod ar y noson. Bydd ymarferion yn cychwyn nos Lun, Mai 20fed am 6.00 yh yn y Neuadd gymuned.

Cymanfa Annibynwyr Cylch Deiniolen, Cwm-y-glo, Llanberis a Phenisarwaun

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Coch, Llanberis, am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Mai 12. Bydd plant yr Ysgolion Sul yn ymuno i ganu gyda Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Ceir sgwrs gan Andrew Settatree.

Gwneir casgliad at Gynllun EFE. Gellir parcio ceir ar fuarth Ysgol Dolbadarn.

Taer erfynnir am gefnogaeth y plant a'r rhieni.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig. Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

Gwarth bod asiantaeth Brydeinig yn rhoi'r gorau i gynnig gwasanaeth Cymraeg

Mae Cynghorydd Plaid Cymru sy'n cynrychioli trigolion Rhiwlas ger Bangor yn pryderu'n fawr na fydd yr asiantaeth gynilion Brydeinig, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I) yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i'w chwsmeriaid o ganol fis Ebrill ymlaen.



Yn ôl Y Cynghorydd Hefin Williams mae'n ofid na fydd asiantaeth sydd dan ofal Canghellor y Trysorlys yn Llundain yn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i'w chwsmeriaid o'r 22 o Ebrill 2013.

'Dwi'n pryderu'n fawr am hyn,' eglurodd Y Cynghorydd Williams. 'Wedi blynyddoedd lawer o gwffio am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gall asiantaeth Brydeinig fel hon wrthod cyfieithu negeseuon fyddant yn eu derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg a diwallu llinell gymorth Gymraeg i gwsmeriaid ar hap. Mae'n warthus o beth!'

'Dwi wedi anfon cwyn ffurfiol at Gyfarwyddwr yr asiantaeth, wedi anfon cwyn at Gomisiynydd yr iaith Gymraeg ac wedi trafod y mater gydag Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Arfon, Hywel Williams.

'Dwi'n bryderus mai dyma fydd dechrau'r llif, wrth i'r geiniog wasgu o fewn asiantaethau a sefydliadau - yr iaith Gymraeg fydd ar ei cholled. O'm profiad i, a swyddogion eraill sy'n gweithredu ar ran cymdeithasau fel capeli ac eglwysy lleol, rydym wedi trafod busnes â'r asiantaeth hon trwy gyfrwng y Gymraeg am dros chwarter canrif. Ni fyddwn bellach yn gallu anfon sic yn y post atynt trwy gyfrwng y Gymraeg!'

'Mae cyrff cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd yn cwyno mai nifer fechan o siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Am flynyddoedd lawer, dwi'n bersonol wedi llungopio ffurflen Gymraeg i dalu arian i mewn i gyfrif ein heglwys, oherwydd nad oedd ffurflenni Cymraeg ar gael yn hwylus gan yr asiantaeth yma mewn swyddfeydd post. Dyna pa mor rhwydd yw hi wedi bod i ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg yr asiantaeth hon.'

'Dwi'n galw ar asiantaethau a sefydliadau i ail-edrych ar eu gweithdrefnau, holi pam bod defnydd o'i gwasanaethau Cymraeg mor isel a chydweithio â defnyddwyr Cymraeg eu hiaith i hwyluso ac arwain y ffordd i gynnig gwasanaeth dwyieithog safonol i ddefnyddwyr a chwsmeriaid ledled Cymru.'

Barn yr "Eco"

Mae'r Cynghorydd Hefin Williams yn rhinwedd ei swydd fel trysorydd Eglwys Pisgah, Rhiwlas, wedi derbyn llythyr Cymraeg o swyddfa'r Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn Glasgow. O bosibl mai hwn fydd un o'r llythyrau Cymraeg olaf i gael ei anfon allan o'r swyddfa honno, oherwydd ers diwedd Ebrill ni fydd y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig.

Yn y llythyr dywedir: "na fyddwn yn cyfieithu negeseuon y byddwn yn eu derbyn yn Gymraeg, ac ni fydd llinell gymorth Gymraeg. Bydd yn rhaid i chi gysylltu ... yn Saesneg. Dim ond yn Saesneg y bydd ein ffurflenni ar gael, ac yn Saesneg yn unig y bydd ein gwefan. Gallwch ein ffonio yn Saesneg."

Yr honiad yw na fu erioed gyfrifoldeb statudol i baratoi gwasanaeth Cymraeg ar y corff hwn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Nid yw'r Cynghorydd Hefin Williams yn fodlon gyda'r ateb hwn na chwaith fod y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddiddymu, ac y mae eisoes wedi cysylltu efo mudiadau iaith yng Nghymru, a gyda'r Llywodraeth yng Nghaerdydd. Mae'n annog eraill i anfon i Glasgow i gwyno am y penderfyniad hwn.

Diddorol sylwi mai cneuen castan sy'n rhan o logo y Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Oes yna rhyw ddywediad - yn Saesneg, wrth gwrs - am "hot chestnut" d'wedwch?



GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwyr
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

LLANBERIS Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-v-Gwynt, Ffôn: 870740

Gwerthfawrogiad Dymuna Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, ddiolch i'w phlant, teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

Er Cofam Bert Parry Yn dilyn angladd Bert, mae £1,400 o arian wedi dod i law. Dymunir ei rannu rhwng Meddygfa Waunfawr, Ambiwylans Gwynedd a Capel Coch, Llanberis. Diolch i bawb eto.

Cymdeithas Undebol Cafwyd cinio ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn ar y 9fed o Ebrill i ddiweddu Tymor y Gymdeithas. Diolch unwaith eto i Aneurin a'r Staff am y wledd fendigedig! Y gwestai oedd Mr a Mrs Dei a Janice Tomos, Nant Peris, a chawsom noson ddifyr a hwyliog yn eu cwmni. Soniodd Dei fel y daeth yr ymwelwyr a'r cerddwyr cyntaf i Eryri. Eu hargraff o'r golygfeydd, y bobl a'u tai a'r llyfrau a ysgrifennwyd am yr ardal ganddynt ac fel mae pethau wedi newid dros y canrifoedd, hyd heddiw.

Llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Gwen Jones.

Bydd tymor nesaf y Gymdeithas yn dechrau ym mis Hydref. Ceir pwyllgor i drafod y rhaglen ym mis Mehefin, dyddiad/amser heb ei drefnu eto.

Diolchiadau Dymuna Alice, Allan a Angela, plant y ddiweddar Doris Williams, Stad Tŷ Du, Llanberis, ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain, a Hen Nain annwyl a charedig. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, blodau, cacennau a'r rhoddion tuag at y Gymdeithas Strôc.

Diolch yn arbennig i'r Barchedig Dr Carol Roberts a'r organydd Iwan Williams am eu gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn ac i gwmni Roberts & Owen, yr ymgymerydd, am eu trefniadau trylwyr. Diolch i Tŷ Mawr, Llanddeiniolen, am y lluniaeth ardderchog.

Diolch Dymuna Enid, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w chymdogion, ffrindiau, staff yr Ysbyty a phawb a fuodd yn help iddi yn dilyn ei damwain yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr iawn.

Cymanfa Annibynwyr Cylch Deiniolen, Cwm-y-glo, Llanberis a Phenisarwaun

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Coch, Llanberis, am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Mai 12. Bydd plant yr Ysgolion Sul yn ymuno i ganu gyda Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Ceir sgwrs gan Andrew Settatee.

Gwneir casgliad at Gynllun EFE. Gellir parcio ceir ar fuarth Ysgol Dolbadarn.

Taer erfynnir am gefnogaeth y plant a'r rhieni.



Athrawon Dolbadarn Pwy? Pryd?

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyd



Llwyddiant Eisteddfod



Gwern Brookes (Unawd Bechgyn) a Lowri Jones (Dawnsio Disgo) fydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro eleni.



Y grwp Dawnsio Disgo fydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro eleni.



Y Côr Iau fydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro eleni.



Bydd yr uchod yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro, eleni:
 Owain Llestyn – Unawd pres bl 7-9
 Math Roberts – Unawd Telyn bl 7-9
 Elan Jones – Dawnsio Disgo bl 7-9
 Gwion Jones – Unawd Bechgyn bl 7-9
 Magi Tudur – Unawd Merched bl 7-9



Y Parti Llefaru fydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro eleni.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Gwledydd y Bydd (Cyflwyniad B.A.C. Blwyddyn 12)

Yr oedd y neuadd dan ei sang a gwahanol ddsbarthiadau o flwyddyn 7 yn cael cyfle i wrando ar gyflwyniadau gan fyfyrwyr blwyddyn 12 ar wahanol wledydd y byd.

Yn ystod y cyflwyniadau clywsant am ieithoedd gwahanol, defodau gwahanol a'r gorau oll oedd cael cyfle i flasw bwydydd gwahanol oedd yn gysylltiedig gyda'r gwledydd.

Cafwyd cyflwyniadau bywiog a rhyngweithiol am ddiwylliant gwledydd y byd fel America, China, India, Groeg, Ffrainc a Trinidad a Tobago. Roedd gwersi dawnsio Gwyddeleg a blasu Olifau a Chaws Feta a chystadleuaeth dyfalu faint o datws oedd mewn powlen! Roedd yna Leprechaun yn y neuadd a'r Duw Zeus ei hun!

Roedd y cyflwyniadau yn gyfle i flwyddyn 7 ddysgu am ddiwylliant gwahanol wledydd ac yn gyfle i flwyddyn 12 feithrin cyfrifoldeb a datblygu eu sgiliau cyflwyno a chydweithio fel rhan o'u gwaith B.A.C.



Diwrnod y Llyfr 2013

I ddathlu Diwrnod y Llyfr fe gynhaliwyd Cwis Llyfrau mawreddog ar lyfrau cyfoes Cymru a'u hawduron. A'r tîm buddugol oedd Awel Ellis, Tia Whaling a Meg Parkinson o ddsbarth 7S.

I ddathlu diwrnod y llyfr fe gynhaliwyd Cwis Llyfrau ar lyfrau cyfoes Saesneg a'u hawduron. Yr enillwyr oedd y tîm o ddsbarth 8E, sef Cian Halliday, Elin Jones, Tyler Hughes a William Jones.

Trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg o Fawrth 2013.

Doedd dim cworwm yn y cyfarfod, felly ni wnaed penderfyniadau a bydd yr eitemau sydd angen penderfyniad y Cyngor yn cael eu pasio ymlaen i gyfarfod mis Ebrill.

Darllenwyd lythyr gan Mr Gareth Roberts am bamffledi llwybrau'r ardal.

Trafodwyd problem sbwriel ym mhentref Llanrug a dywedwyd fod y broblem yn dal i fodoli. Dywedwyd nad oedd Ysgol Brynrefail wedi cysylltu hyd yma ynglŷn â chydweithio ar brosiect i lanhau ardaloedd o'r pentref.

Darllenwyd e-bost a dderbyniwyd yn egluro'r sefyllfa ddiweddaraf am y cytundeb cyfreithiol ynglŷn â'r tai newydd ar safle hen ysgol Glan Moelyn. Eglurwyd fod y broses gyfreithiol yn cymryd llawer hirach na'r disgwyl a bod dadlau am yr eitemau roedd y Cyngor wedi gofyn amdanynt.

Penderfynwyd hysbysu Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd fod giât wedi cael ei gosod ger lwybr cyhoeddus 50/51 ger Rhos y Grug, Ceunant a bod pryder y gall hyn roddi camagraff mai llwybr preifat ydyw ac nid un cyhoeddus.

Cyflwynodd y Clerc gyllideb ddrafft ar gyfer 2013/14. Trafodwyd yr eitemau a newidiwyd ambell eitem. Dywedwyd y byddai'r gyllideb yn cael ei chyflwyno a'i chymeradwyo yng nghyfarfod mis Ebrill.

Dywedwyd fod archwiliad answyddogol wedi'i wneud ar y cerrig yn y fynwent a bod chwe charreg yn ansefydlog. Rhoddwyd un i lawr am ei bod yn beryglus. Penderfynwyd ceisio cysylltu gyda theuluoedd y chwech yma.

Darllenwyd e-bost a gafwyd gan PCSO Couling yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn gadael ei swydd bresennol ond fod PCSO Worth yn aros. Dylid cyfathrebu gyda hi o hyn allan.

Darllenwyd e-bost a gafwyd yn pryderu am giatiau a oedd wedi eu gosod ar draws llwybr cyhoeddus. Penderfynwyd pasio'r gwyn ymlaen i Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.

Darllenwyd ddiweddariad a dderbyniwyd am gyfarfod safle gyda chwmni BT a Scottish Power ynglŷn â'r polion a osodwyd ar safle'r Hen Ysgol.

Dywedwyd bod arwyddion newydd am eu gosod o flaen Tai Arfon a Didfa. Penderfynwyd trafod y gofyn am arwyddion newydd yn rhannau eraill o'r pentrefi yng nghyfarfod mis Ebrill.

Adroddwyd fod un o drigolion Bwlch wedi cymryd grit o'r bin grit a'i roi ar ei dir ei hun yn ystod yr eira diweddar ac o ganlyniad, nad oedd dim ar ôl i'w roi ar y ffordd gyhoeddus. Roedd un o drigolion eraill Bwlch wedi gofyn a fyddai modd gosod bin arall ar ei thir hi ar gyfer ei roi ar y ffyrdd cyhoeddus fel nad oedd hyn yn digwydd eto. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd.

Dywedwyd nad oedd Cymdeithas yr Iaith yn poeni yn ormodol am yr effaith ar yr iaith Gymraeg os bydd parciau gwyliau yn cael caniatâd i agor am ddeuddeg mis o'r flwyddyn. Roedd swyddog o Gyngor Gwynedd wedi egluro mai'r prif reswm dros ganiatau hyn oedd i hybu busnes ac economi lleol.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Wariant 3420271

Crynodeb o gofnodion yr 2il o Ebrill.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Ateb Meirion Williams, Gwynedd:

Lôn Plas, Rhiwlas, mae mwyafrif o'r ffordd yma yn breifat ond mae rhan ohoni yn llwybr cyhoeddus a danfonir adroddiad o gyflwr y llwybr i'r Adran berthnasol.

Marilla a Tŷ Hen – dŵr wyneb, mae'r broblem wedi ei datrys dros dro ond gwneir asesiad pellach er gyfer gwellhad parhaol.

Tŷ Mawr Cottages, ceisiwyd dad-flocio'r draen ond gwneir archwiliad CCTV yno i weld a oes angen gwli ychwanegol

Ateb Dafydd W. Williams, Gwynedd:

Parcio yn Stryd Uchaf, Rhiwlas – edrychir ar y sefyllfa eto i weld a oes modd gosod gwaharddiadau parcio yno.

Stryd Winllan, Penisa'rwaun – edrychir ar y posibilrwydd o osod gwaharddiadau yma hefyd.

Bil Teithio. Manylodd Siôn Jones ar bwrpas y Bil yma a'r gobaith o ddatblygu llwybr ar hyd yr hen reilffordd ayyb. Cyfeiriodd Phyllis Elis at geisiadau'r Cyngor am lwybr beicio o ffordd Llanberis/Caernarfon at Nant y Garth – llythyr i Dafydd W. Williams, Gwynedd, i bwysleisio eto bod cymaint os nad mwy o feicwyr yn defnyddio'r ffordd yma na ffyrdd eraill lle mae llwybrau beicio. Penderfynwyd cael copi o fap y gymuned i bob aelod gael cyfle i farcio arno lle mae angen datblygu. Gwirfoddolodd Siôn Jones i gael y mapiau.

Gorchmynion rheoli cŵn. Derbyniwyd manylion ar hyn ond penderfynwyd pwysleisio i Gyngor Gwynedd bod angen mwy o arolygu gan wardeiniaid, yn enwedig pan fo plant ar eu ffordd i ac o'r ysgol. Cyfeiriwyd hefyd at faw cŵn yn barhaol ar gae chwarae Penisa'rwaun ac ar hyd strydoedd Deiniolen – llythyr i Wynedd

Tre'r Gôf, Bethel. Cyfeiriodd Siôn Jones at addewid y Cyngor o gyfraniad ar y llecyn parcio newydd gan ofyn i'r Clerc roi pwysau ar Wynedd (Barry Naylor) i'w wneud yn fuan.

ns&i. Cyfeiriodd Hefin Williams at fwriad y Bwrdd Cynilo Cenedlaethol i beidio defnyddio'r Gymraeg o gwbl ymhen blwyddyn. Penderfynwyd hysbysu Un Llais Cymru a gofyn iddynt a oes modd cael holl Gynghorau Cymuned Cymru i wneud safiad yn erbyn bwriad ns&i

Lôn Racca/Clwt y Bont. Cyfeiriodd Idris Thomas at gyflwr echrydus wyneb y ffordd yma – llythyr i Wynedd.

Birmingham House, Deiniolen. Dywedodd Elfed Williams bod bwriad i wneud Indian take away yno. Penderfynwyd aros tan derbyn cais cynllunio cyn gwneud gwrthwynebiad.

Penisa'rwaun. Dywedodd Phyllis Elis bod angen arafu trafnidiaeth heibio'r ysgol i 20mya a symud 30mya presennol at Bron y Gaer i gyfeiriad Llanrug.

Brynrefail. Dywedodd Carolyn Roberts bod llawer o blastig a sbwriel wedi ei gario i ardal Pen Llyn ers y llifogydd – llythyr i Wynedd.

Bethel. Cyfeiriodd Richard Ll Jones at y tyfiant i'r ffordd ar gornel Tre'r Gôf yn amharu ar welededd ac yn hel caniau a phob math o lanast.

Hen Ysgol, Dinorwig. Cyfeiriodd Idris Thomas at y ffaith bod yr ysgol ar werth, mae'n adeilad ardderchog – llythyr i Wynedd i ofyn am ei ddefnyddio eto er budd y cyhoedd, yn ddiwydiant neu ryw beth fel cyfraniad i economi'r ardal.

Llwybrau. Cyfeiriodd Elfed Williams eto at gyflwr y llwybr at Gapel Sardis, Dinorwig, a hefyd at gyflwr drwg y llwybr o Gorlan i gyfeiriad yr Incline – llythyr i Wynedd.

Cynllunio.

Bronydd, Rhiwlas – cais i osod cynllun pŵer hydro-electric. Cymeradwywyd y syniad yn fawr gan na fydd yn amharu ar brydferthwch yr ardal.

Eira Mawr Mawrth 2013.

Penffrwyn ar y gwanwyn gwyrdd – a lluwch
fel llwch dros y culffyrdd,
ei orgraff daga'r traffyrdd,
yn fagl y palmentydd fyrdd.

Ar y gwylltir a'r gelltydd – oedai'i lach
hyd lechwedd y mynydd,
yn gŷn ar ganghennau'r gwŷdd
hwn yw diawl wŷn y dolydd.

Awchlym cylllell hell yr hin – ei erfyn
yw'r oerfel ar egin,
gwanu gwythiennau gwynnin
y tir blwng a'r crindir blin.

Mawrth fel llew yn lladd addewid – o berth
mis bach, impiad gwyddfid
deilios prin, a'r ceirios prid
yn cyrlio dan y cwrlid.

Socan eira yma o hyd – ar stae
o'r storm cyn dychwelyd
i ranbarth twndra enbyd
gwanwyn gwell, yn bell o'n byd.

Ar fynwent wen mae'r cennin yn felyn
yn foliant, yn fyddin,
rhes wrth res yn herio'r hin
y wawr rhyddid o'r priddin.

Norman Closs



Côr Meibion Brenhinol Hengelo

Côr Meibion o'r Iseldiroedd yn canu yng Nghaernarfon

Nid dim ond blodau sy'n dod o'r Iseldiroedd i Gymru y gwanwyn hwn. Bydd côr meibion enwog o'r wlad honno hefyd yn ymweld â Chaernarfon ddechrau Mai.

Sefydlwyd côr KHM (Côr Meibion Brenhinol Hengelo) dros 125 mlynedd yn ôl yn 1886. Mae ganddo 70 aelod ac mae ei repertoire amrywiol yn cynnwys caneuon poblogaidd o fyd opera i sioeau cerdd, caneuon gwerin a charolau.

Meddai Dafydd Les Hughes, Ysgrifennydd Côr Meibion Caernarfon, sy'n trefnu'r rhan hon o'r daith,

'Bydd Côr Hengelo a'u teuluoedd yn yr ardal rhwng Mai 2-6 gan berfformio mewn cyngerdd "Gwledd o Ganu" yn Theatr Seilo, Caernarfon, ar nos Sadwrn 4 Mai, yn dechrau am 7.30 pm. Bydd dros 100 o bobl yn y grŵp i gyd ac edrychwn ymlaen at eu croesawu, cydganu a chyd-gymdeithasu. Mae'r tocynnau'n siŵr o fod yn brin felly brysiwch i'w harchebu o Palas Print, Caernarfon neu gan unrhyw aelod o Gôr Meibion Caernarfon - y mae nifer dda ohonynt yn byw yn ardal Eco'r Wyddfa. Y pris yw £5.'

Ychwanegodd Dafydd Les, 'Mae tref Hengelo yn agos i'r ffin â'r Almaen. Gyda phoblogaeth o dros 80,000, mae'n ganolfan bwysig ar yr A1/E30 o Amsterdam i Foscow. Bomiwyd y dref yn helaeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd ond bellach mae'r siopau a'r canolfannau diwylliannol niferus yn ffynnu unwaith eto.'

AR WERTH

System Pram/stroller (Quinny Buzz Jogger)
lliw mefus (coch) yn addas o enedigaeth ymlaen sy'n cynnwys:

Sedd car Maxi Cosi + uned sedd

Gorchudd glaw, Myff traed Quinny

Basged a bag siopa, Gorchudd haul: £120 y cyfan

Basged Moses a stand £10

Sterileiddiwr stêm Tomee Tipee £5

Dau dwymydd bwyd a photel teithio £5

Ffôn: Meinir Llwyd 01286 677263 neu 07792 599 588

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwy

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te
angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon

Ffôn: 01286 673190

Symudol: 07774 925502

BOSCH Service
Car Service

AA MOT **ATC** **www.a-v-w.co.uk**
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



CHWILOTA

Ffrae Eglwysig ym Metws Garmon.

Gyda cymaint o sylw wedi ei roi dros y misoedd diowethaf i ganlyniadau Cyfrifiad 2011; yn enwedig y lleihad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg, nid yw'n syndod o gwbl darllen hanes ffrae ieithyddol o fewn yr eglwys, a hynny ymhell dros ganrif yn ôl.

Ym mis Mawrth 1897 roedd plwyfolion Betws Garmon yn cwyno nad oedd gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnal yn eglwys y plwyf, a hynny yn bennaf am fod yr eglwys wedi ei huno â phlwyf y Waunfawr. Roedd gwasanaeth Saesneg yn cael ei gynnal yn y Betws ar brynhawn Sul yn unig, a dyna'r cyfan. Gan fod mwyafrif poblogaeth y plwyf yn Gymry uniaith, anfonwyd at Esgob Bangor i ofyn iddo wahanu y ddau blwyf a phenodi clerigwr i fod yn gyfrifol am Betws Garmon. Gwnaethpwyd y cais ar ran y plwyfolion gan y Parch John Parry, clerigwr oedd wedi ymddeol i Blas y Nant ar ôl gyrfa yng nghanolbarth Lloegr. Yr oedd yn fodlon cyfrannu £200 tuag at waddoli Eglwys Betws Garmon. Cafwyd addewid o £100 gan ŵr o'r enw Mr Storey, ac yr oeddent yn fodlon casglu'r £200 arall rhyngddynt er mwyn cael swm o £500. Gwerth yr ofalaeth bryd hynny oedd £60.

Anfonwyd yr Archddiacon Pryce i wneud ymchwiliad i'r sefyllfa, ond ni chawsant ateb gan yr Esgob.

Roedd y Parch John Parry, er yn eglwyswr ei hun, yn hallt iawn ei feirniadaeth o glerigwyr Cymru ac o'r Eglwys yn genedlaethol. "Ni fuasai son wedi bod am Ymneilltuaeth," meddai, "oni bai am falchder a dulliau sarhaus y clerigwyr." Aeth ymlaen i roi enghreifftiau o hyn ym Metws Garmon. Flynyddoedd ynghynt, roedd person Betws Garmon yn byw ym Môn, ac yn ymweld â'i

ofalaeth bob rhyw chwech wythnos. Yr oedd person arall wedi cadw angladd i ddisgwyl yn y fynwent am dros awr oherwydd ei fod angen gorffen pysgota yn afon Gwyrfaierllaw! Digwyddiadau fel hyn, yn ôl y Parch John Parry, oedd yr achos i gymaint o bobl droi cefn ar yr Eglwys wladol, ac oni bai am Anghydfurfiaeth, byddai Cymru gyfan wedi troi yn wlad baganaidd. Dweud go fawr gan ŵr eglwysig! Yr oedd am weld Betws Garmon yn blwyf ar wahan i'r Waunfawr er mwyn i'r plwyfolion gael gwasanaethau yn eu mamiaith, a denu pobl gyffredin yn ôl i'r eglwys.

Ficer y ddau blwyf bryd hynny oedd y Parch Robert Arthur Williams, neu a rhoi iddo ei enw barddol, Berw. Ym mis Mai 1891 y penodwyd ef gan yr Esgob D.L.Lloyd yn ficer Betws Garmon a churad parhaol y Waunfawr. Roedd wedi bod yn y swydd ers chwe mlynedd cyn i'r ffrae ynglŷn â iaith gwasanaethau Betws Garmon godi. Yr oedd o farn wahanol i'r Parch John Parry.

Yn ôl Berw, roedd plwyfolion y Betws a'r Waun yn hollol fodlon ar y trefniadau. "Dim ond milltir o ffordd sydd rhwng y ddwy eglwys," meddai, "ac y mae Eglwyswyr Cymraeg y Betws yn mynychu gwasanaethau Cymraeg y Waunfawr." Yn yr un modd, roedd Eglwyswyr di-Gymraeg y Waun yn cerdded i'r Betws bnawn Sul i gael gwasanaeth Saesneg. "Annoeth," meddai, "fyddai newid y drefn bresennol oherwydd y mae yn fwy pwrpasol i fwyafrif y bobl."

Tybed beth fu canlyniad y ffrae yn nes ymlaen yn y flwyddyn? A beth yw'r sefyllfa heddiw, gan fod eglwys y Waunfawr bellach wedi ei chau?

Ieuan Padarn.



Y Parchg John Jones
(Yr Hengloddiwr)



Y Parchg Evan Jones
(Ieuan Padarn)

Er cof am
Y Parch. E. E. Jones (Ieuan Padarn),
Bardd, Diwinydd, Pregethwr enwog,
Gweinidog Bethel, Rhosybol,
am 35 mlynedd.
Bu farw Awst 14, 1910,
yn 60 mlwydd oed.

Mae'r llun yn dangos Minffordd, Dinorwig, cartref yr Hen Gloddiwr, ble magwyd Ieuan Padarn. (gyda diolch i Eirwyn Morris am y copi).

Mae'r ymchwil i bwy oedd Ieuan Peris yn parhau! Ond daeth gwybodaeth am Ieuan Padarn gan Ceri Foulkes, Deiniolen ac Eirwyn Morris (Dinorwig gynt).

Roedd Evan Evans Jones neu Ifan Jones neu Ieuan Padarn yn fab i'r Parch John Jones, gweinidog Capel Sardis, Dinorwig. Adnabyddid y tad fel 'Yr Hen Gloddiwr'. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ddyddiau cynnar Ieuan Padarn, oherwydd, er iddo ysgrifennu llawer, yn bregethau, barddonioeth a nofelau, llosgodd y cyfan!

Bu'n weinidog ar gapel Bethel, Rhosybol ym Mon am 35 mlynedd, a bu farw yno ar 14eg o Awst 1910 yn 60 mlwydd oed. Cyhoeddodd un llyfr, sef "Nosweithiau gaeafol yn yr Hafod". Rhoes gopi o'r llyfr i Cynddelw ar ddiwedd un o oedfaon cymanfa a gynhelid yng Nghaernarfon, ac aeth Cynddelw ati i roi sylw i'r llyfryn gan annerch y gynulleidfa trwy ddweud: "Y mae gan Ifan, mab yr Hen Gloddiwr, lyfr bach gwerth ei ddarllen. Ei bris yw tair ceiniog. Fu yr Hen Gloddiwr erioed yn dad i lyfr; mae o yn daid i lyfr rwan. Prynwch o bobol." Gwerthwyd nifer helaeth o gopiau o'r llyfr.



MINFFORDD (Cartref Yr Hen gloddiwr ac Ieuan Padarn)

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwyr


Hen Adfeilion.

Ddaeth neb yn ôl gydag unrhyw sylw am y llun a ddangoswyd yn y rhifyn diwethaf. Oedd unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod ble mae?

Does gen innau ddim enw i'r tŷ chwaith, ond mae'n sefyll i'r dde, led cae o'r hen lôn o Groeslon Raca i fyny am gyfeiriad Beran. Gyferbyn â'r giat cae sy'n arwain tuag ato mae twmpath o gerrig a mwy o adfeilion. Yn ôl mapiau Ordnans cynnar, yr enw ar hwn oedd Gwyndy, ac y mae'n dangos lôn drol yn arwain draw at yr adfail yn y llun. Oedd cysylltiad rhwng y ddau adeilad tybed?

Gan fod yr adfail wedi ei leoli bellach, tybed all unrhyw un roi mwy o wybodaeth amdano neu am Gwyndy?

Adfail y mis hwn yw Braich y Dinas ar y lôn gefn o Benisarwaun i Frynrefail. Unwaith eto, led cae oddi wrtho mae adfail arall. Pa un o'r ddau yw Braich y Dinas, a beth oedd eu hanes?



Braich Y Dinas

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Mwy o rowndiau llefrith.

CHWILOTA

Parhad

Daeth llythyr gan Mr R. Williams o Lanfairpwll yn rhoi mwy o wybodaeth am rownd lefrith yn Neiniolen. Roedd gan ei dad, Ifan Williams, fusnes llefrith yn y pentref am tua deugain mlynedd, ac yn bedair ar ddeg oed yn 1939, ymunodd yntau a'r gwaith, a'i gynnal, mwy neu lai ar ei liwt ei hun. Cred mai tair hen geiniog y peint oedd y pris bryd hynny. Yn ddiweddarach, gwerthwyd y busnes, ac yn 1955 ymfudodd i Awstralia, lle bu'n byw yn Melbourne a Queensland. Symud eto yn 1961 i Seland Newydd cyn ymddeol yn ôl i Gymru yn 2004.

Cyfeiria Mr Williams hefyd at Dai Fictoria, a adeiladwyd ar dir Pen Golwg. Hen hen daid iddo a adeiladodd Pen Golwg, ac y mae aelodau o'r teulu yn parhau i fyw yno hyd heddiw.

Pyllau Afon Saint.

Diddorol oedd darllen enwau rhai o byllau afon Saint o ardal Pontrug i lawr am Gaernarfon yng ngholofn 'Ar Ben arall i'r lein' yn y rhifyn diwethaf. Dyma ychydig sylw ar rai ohonynt.

Melin Byrns. Roedd gŵr o'r enw John Burns yn denant ar fferm Bodrual, ac yna'n ddiweddarach ar fferm Cefntersaint (Kent) ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond pa un oedd Melin Byrns, gan fod Melin Bodrual a'r Felin Wen eisoes yn bod?

Marddwr Pont Rhythallt. Mae'r Marddwr heddiw gyferbyn â Chraig y Dinas (Stabla). Oddi yno y byddai cychwr yn cario nwyddau oddi ar y tren chwarel ar draws Llyn Bogelyn i Gwm y Glo. Ond mae Marddwr Pont Rhythallt yn cyfeirio at gyfnod cyn adeiladu unrhyw un o'r ddwy reilffordd, a gallai'r ardal ym Mhontrhythallt fod gryn dipyn yn wahanol i'r hyn ydyw heddiw. Efallai mai cyfeiriad sydd yma at y dwr llonydd o amgylch y Droiad a'r Droiad fawr.

Ffatri Pontrhythallt. Roedd melin yn gysylltiedig â'r Pandy, ac wedi ei lleoli ar lan Llyn Du Bach. Fe'i chwalwyd pan adeiladwyd y rheilffordd yn ystod y 1860'au.

Cae Tre Hen Beblig. Mae Tre Hen Beblig yn hen enw cysylltiedig â'r ardal ble mae cyn ffatri Peblig wedi ei lleoli.

Coed Mr Garnon. Gallai'r coed fod ar y llethrau serth rywle rhwng y gwaith brics a lôn Santes Helen (Lôn Gas) yng Nghaernarfon. Garnon oedd y teulu a fu'n rheoli rhai o chwareli dyffryn Nantlle, ac yr oedd tramffordd gynnar iawn ganddynt yn cyrraedd y llethr serth gyferbyn â safle hen ybty Bryn Seiont. Mae ychydig o'i holion i'w gweld heddiw uwchben y llwybr beics.

Melin Bodreual/Melin Bapur. Mae melin Bodrual wedi ei chwalu, a'r safle yn rhan o faes gwyliau Glan Gwna erbyn heddiw. Mae un o'r meini melin yn aros hyd heddiw. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg defnyddiwyd y felin i gynhyrchu papur, diwydiant a barhaodd hyd tua 1830.

Diolch i Huw Hughes am ddod a'r hen enwau hyn i'n sylw.

A dyna lawn digon am y mis! Anfonwch unrhyw sylwadau neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn 01286 673515.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

PLAID CYMRU LLANRUG A'R CYLCH

HELFA DRYSOR

Nos Fercher Mai 15fed

Cychwyn o arosfan Ysgol Brynrefail

Am 6.00p.m

Cost £4 y car

Enwau ac archeb bwyd i Nan (675668),
Meryl(677149), Pat (674372) neu Julie (650255)

Ysgol Gynradd

Ffarweliwyd â Charlie a Ben Allmond sydd wedi symud i fyw i Ardal y Llynnoedd. Dymunwn pob lwc iddyn nhw yn eu cartref a'u hysgol newydd.

Bu aelodau o Flwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth athletau dan do, sef Elen, Efa, Anna, Lisa, Rhydian, Owain, Ben a Cai. Daeth y tîm yn fuddugol yn y rownd gyntaf yng Nghaernarfon ac yn ail yn y rownd derfynol ym Mhwlheli. Llongyfarchiadau i'r tîm Athletau. Diolch i Mr Wyn Griffith am hyfforddi.

Cawsom ddiwrnod gwisg ffansi a het Basg i orffen tymor y Pasg. Diolch i bawb a aeth i'r drafferth i gymryd rhan.

Cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Llongyfarchiadau i'r tîm Dawnsio Gwerin dan 10 oed, i Leisa [cyntaf ar yr Unawd Alaw Werin], Tomi [cyntaf ar yr Unawd dan 10 oed] ac Erin Gibbard [cyntaf ar yr unawd Cerdd Dant dan 8 oed. Pob hwyl iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Benfro ym mis Mai.

Casglwyd cyfanswm o £464.00 ar ddiwrnod ymgyrch y Trwynau Coch. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i'r Cyngor Ysgol

am drefnu'r diwrnod.

Ffarweliwyd â Mrs Norma Price a ddychwelodd i Batagonia. Cafodd Blwyddyn 1 a 2 y pleser o'i chwmmi a gall y dosbarth siarad dros 'Skype' â Mrs Price yn yr ysgol yn Nhrelew lle mae'n gweithio.

Daeth merch o'r Gwasanaeth Tân i roi cyngor i Flwyddyn 1 a 2 ar sut i arbed tanau mewn tŷ.

Daeth Mr Dafydd Whiteside Thomas at flynyddoedd 5 a 6 i roi cefndir hanes sefydlu pentref Llanrug, a chawsom awr ddifyr yn ei gwmni.

Cynhaliwyd cystadlaethau pêl-droed yr Urdd ar gyfer ymerched a'r bechgyn. Fe wnaeth y ddau dîm yn dda iawn, a diolch i Mr Wyn Griffith am eu hyfforddi.

Diolch Dymuna Helen, Einir, Gwenno a theulu y diweddar Evan Thomas Parry, Morwel, Ceunant, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Evan, gŵr, tad, taid a brawd arbennig. Diolch am y rhoddion hael o £1100 tuag at elusen Tenovous. Diolch i'r Parchedig Marcus W. Robinson am y gwasanaeth teimladwy, i Mrs. Mair Huws am ei chyfraniad wrth yr organ ac i Mr. Arwel Jones am ei deyrnged arbennig.

Diolch i Mrs. Cerid Mackinnon am y lluniaeth blasus a threfniadau gofalus Ymgymerwyr Paragon, Pen-y-Groes.

Diolchiadau Hoffai Llion Wyn Roberts, Clegir, Nant y Glyn, ddiolch o waelon calon i'w deulu a'i holl ffrindiau am y llu cardiau ac am yr anrhegion hael a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddiweddar.

Diolch i chi i gyd am wneud ei ben-blwydd yn un i'w gofio am byth.

Dymuna Melfyn, Mair a theulu'r ddiweddar Nancy Evans, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli Mam, Nain a hen Nain. Diolch i'r meddygon a'r staff ym Meddygfa Waunfawr ac i'r meddygon a'r gweinyddesau ar Ward Aran, Ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig ohoni. Diolch i'r Parch Ddr Carol Roberts am ei gwasanaeth, i Gwynfor a Jane o E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ac i Westy Padarn Lake, Llanberis, am y lluniaeth ardderchog. Diolch am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr a gasglwyd er cof amdani.

Fe ddymuna Mrs Dorothy Carter ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd mae yn ei dderbyn gan deulu, ffrindiau a chymdogion yn ystod ei gwaeledd. Brysiwch wella, Dorothy.

Yn dilyn ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar, fe ddymuna Gwilym Williams, Bron Eifion, ddiolch yn arw iawn i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau

am eu cydnabyddiaeth a charedigrwydd mewn amryw fodd ac yr achlysur yma. Diolch.

Diolchiadau Yn dilyn cyfnod o waeledd hir iawn, fe ddymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, ddiolch yn arw iawn i'r canlynol: Dr Roberts a Dr Oddy, Meddygfa Llanberis; meddygon a gweinyddesau Ysbyty Gwynedd; meddygon a gweinyddesau Ysbyty Eryri; Gofalwyr Cartref; perthnasau a ffrindiau, yn arbennig i Elwyn a Rhian, Padarn Lake, Llanberis; Maureen Pritchard, Y Felinheli. Mae gartref nawr ond yn dal i ddibynnu ar ofal a charedigrwydd yr uchod. Diolch yn fawr iawn.

Profedigaethau Bu farw Mrs Kathleen Maud Sinclair, 45 Bro Rhythallt yn ddiweddar. Mam annwyl i Valerie, Eric a David, llysfam annwyl hefyd i David, Roland a Wyn Sinclair a nain a hen nain hoffus. Roedd yn fodryb i lawr yn lleol a chydymdeimlwn yn arw â chwi i gyd.

Yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Mrs Dorothy Jones, Tegerin, Stad Talybont. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant iawn at Mr Richard Jones ac Anwen a'r teulu. Bu Mr Jones yn gofalu yn dyner iawn am ei wraig am gyfnod hir ac fe fydd colled fawr iddo a'r teulu oll.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth: 1. Mrs B. Williams, Disgwylfa; 2. Sharon Owen, Bro Rhyddallt; 3. Arthur Jones, 12 Hafan Elan.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mis Ebrill: 1. Leslie Larsen, Penisarwaun; 2. James Jones, Afon Rhos.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS


Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Capel y Rhos

Fore Sul y Blodau, daeth Mr. Andrew Settatee a Mrs Susan Williams atom i gyflwyno gwasanaeth arbennig iawn i ni. Daeth nifer o ieuenctid y capel i gymryd rhan gyda hwy. Cyflwynwyd nifer o emynau newydd a modern gan Susan a chawsom neges amserol a phwrpasol iawn gan Andrew. Diolch o galon iddynt am wasanaeth bendithiol a chofiadwy iawn.

Mae basged ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon wedi ei gosod yng nghyntedd y Capel. Gwahoddir rhoddion o nwyddau fel tuniau bwyd, pacedi bwyd sych fel reis, pasta, uwd ayyb. Os nad ydych yn mynychu'r capel ac yn dymuno cyfrannu, mae croeso i chwi ddod â nwyddau i'r festri pan fydd Cylch Ti a Fi yn cyfarfod ar bnawn Mawrth neu fore Gwener.

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli tri aelod yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydym yn meddwl yn annwyl iawn am deulu Mrs Lily Horman, gynt o Venice, Ffordd yr Orsaf; teulu Mr Evan Parry, Morwel, Ceunant, a theulu Mrs Dorothy Jones, Tegerin, Tal y Bont. Hefyd rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'r Parch. Marcus Robinson, ein gweinidog, gan iddo yntau golli ei lys-fam oedd yn bywyn Lerpwl.

Mae'n bleser cael llongyfarch Mr. Huw Emyr Williams sy'n flaenor yn y capel ar gael ei benodi yn bennaeth Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Dymunwn yn dda iawn iddo pan fydd yn cychwyn ar ei swydd ym mis Medi.

Oedfaon mis Mai

- 5: Y gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun.
- 12: Parch. John Watkin
- 19: Sul y Pentecost – Y gweinidog
- 26: Parch. Athro Euros Wyn Jones

Cylch Meithrin Dyma'r rhai buddugol yn y Bêl Bonws yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mawrth 23: (rhif 31) Maccsen a Nanw Haf;

Mawrth 30: (rhif 33) Yvonne Owen;

Ebrill 6: (rhif 36) Meirwen Lloyd;

Ebrill 13: (rhif 6) Nerys Rogers;

Ebrill 20: (rhif 14) Tomos, Berian a Betsan Teifi.

Llongyfarchiadau i'r rhai lwcus a diolch o galon i bawb arall sy'n cefnogi gwaith y Cylch Meithrin



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)



MERCHED Y WAWR

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Mair Huws, a chychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Helen yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Ifan. Dymunwyd gwellhad i fam Iris ac anfonwyd cofion at Cari wedi ei thriniaeth yn Lerpwl.

Llongyfarchwyd pawb o fro'r Eco yn eu llwyddiannau yn Eisteddfod Sir Eryri a dymunwyd pob lwc iddynt yn y Genedlaethol. Cytunwyd i roi rhodd tuag at gostau'r bws i Barti Dawnsio Gwerin dan 10 Ysgol Llanrug a dymunwyd yn dda i'r plant a'r hyfforddwraig, Heulwen Evans, Trysorydd y Gangen.

Cynhelir Diwrnod y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor ar Sadwrn, 11 Mai, am 9.30. Bydd stondin Mirsi yno ynghyd ag eitemau gan Ganolfan Gerdd William Mathias, sgwrs gan Mari Gwilym, blas o Gwmni Drama y Groeslon, a chawn hanes Gwinllan Pant Du, Penygroes.

Gwestai'r noson oedd Marion Hughes o Lanllechid, gyda sgwrs a sleidiau am 'Deithio'r India'. Wedi gweithio am flynyddoedd fel Gweithiwr

Cymdeithasol cafodd gyfle i fynd i aros gyda theulu yn Kerala am yn agos i dri mis, gan ymroi i helpu'r bobl yno i gael Canolfan Gofal Dydd, tebyg i Fachwen a'r Antur. Bu'n helpu i gynllunio tasgau i bobl a phlant anabl, fel gwneud bara ar gyfer gweinyddu'r Cymun Bendigaid. Gwnaeth ffrindiau lu a chafodd brofiadau bythgofiadwy a chroeso twymgalon gan y teulu.

Y mae'r Ganolfan bellach wedi'i gorffen, Canolfan Gofal Ysbaid amhrisiadwy ac mae Marian yn dal i gyfathrebu â'r teulu ac â gweithwyr cymdeithasol y Ganolfan. Y mae'n dal yn brysur yma hefyd fel Is-gadeirydd y Deillion ac yn gwarchod cŵn tywys a mawrygir ei gwaith cymdeithasol i bobl ei chymuned.

Diolchwyd i Marian gan Eryl – un a fu'n gweithio fel Marian am flynyddoedd ac yn gwybod yn iawn am ei dycnwch a'i gwaith caled.

Diolchir i Eryl, Menna a Margaret am y baned. Enillydd y raffl oedd Phyllis. Nos Fawrth, Mai 14eg cynhelir ein Cyfarfod Blyneddol gyda chaws a gwin.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Teyrnged Evan Parry

I'r rhai hynny ohonon ni gafodd y fraint o adnabod Evan Parry mi fasa ni'n gallu ei ddisgrifio mewn sawl modd.

Mi fasa rhywun yn gallu ei ddisgrifio fel dyn cymharol fychan - ond mawr iawn ei barch.

Mi fasa rhywrai ohonoch yn gallu cyfeirio ato fo fel dyn tawel - ond hefo'r gallu i gyfrannu i sgysiau a thrafodaethau yn y modd mwya cynnil, ac eto mor bellgyrhaeddol.

Mi fasa eraill ohonoch yn gallu ei bortreadu fel dyn swil, yn bodloni ar y cyrion - ond eto gyda'r gallu prin hwnnw i lenwi ystafell gyda'i bersonoliaeth heintus a'i hiwmor slic, cellweirus.

Dyna'r Evan Parry i'r rhelyw ac mae' nhw'n ddisgrifiadau reit agos i'w lle.

Ond dwi am fynd gam ymhellach oherwydd fod gen i yr hawl. Mi ges i'r fraint fawr o'i gael yn ffrind ac yn fwy - yn ffrind agos. Ffrind y medrwn ymddiried ynddo fo, ffrind oedd yn barod i wrando ar fy nghwynion, ffrind oedd yn barod i'm clodfori pan haeddwn hynny a ffrind oedd yn barod i ddweud y drefn pan haeddwn hynny. Yn syml iawn - dyma un o'm harwyr.

Doedd gan Evan a finna fawr ddim yn gyffredin o safbwynt diddordebau. Fedra'n sgysia ni byth droi o amgylch pêl-droed, criced, snwcer, pysgota a golff. Fy niddordebau i oedd rheini i gyd - nid rhai Evan. Fedra'n sgysia ni fyth droi o amgylch technoleg, electroneg, gwaith metel a chrombil peiriannau - diddordebau Evan oedd rheini - nid fy rhai i.

Ac eto fydda'r ddau ohonon ni byth yn brin o sgws. Pam tybed? Beth oedd yn denu'r ddau ohonon ni at ein gilydd i gymdeithasu ac i gydweithio? Wel, mi ddeuda i wrtha chi -roedd gan y ddau ohonon ni gariad angerddol at Gymru, at yr iaith Gymraeg ac at bobol.

I Evan - pobol oedd yn gwneud cymdeithas. Pobol gyffredin ffraeth. Cig a gwaed oedd Garndolbenmaen, Bryncir, Rhoslan, Cwm Pennant ac Ysgol Dyffryn Nantlle yn y dyddiau cynnar iddo fo yn union fel ag yr oedd Ceunant a Dyffryn Peris iddo yn ddiweddarach. Hoffai bob amser sôn am y cymers, yr adar brithion, y bobol anghonfensiynol, a gorau oll os oedd yna dwts bach o athrylith yn perthyn iddyn nhw. Rhain oedd yn rhoi sglein ar gymdeithas, yn ôl Evan. Rhain oedd yn gosod eu stamp ar y gymuned. Dwi o'r farn ers pan dwi yn ei adnabod mai dyma pam y bu ganddo gymaint o ddiddordeb ym myd y ddrama, a hynny tu ôl i'r llenni. Nid lle Evan Parry oedd blaen llwyfan - roedd y cynhyrchu tu ôl i'r llenni yn llawer pwysicach iddo fo. A dyna pam fod gan ddramodwyr a chynhyrchwyr/gyfarwyddwyr fel Gwenlyn Parry, Rhydderch Jones, John Gwilym Jones, Huw Lloyd Edwards ei ffrind gorau (ynghyd a Victor John) ac wrth gwrs W.S. Jones (Wil Sam) gymaint o feddwl ohono. Dwi'n cofio Evan yn codi'r ffôn - 'Fasa ti'n licio dŵad i'r Garn heno - dwi di trefnu i gwarfod Wil Sam am lymaid a seiat bach.' Doedd dim rhaid gofyn ddwywaith - roedd y posibilrwydd o fod yng nghwmni'r ddau yn sgwsio am gymeriadau'r fro yn rhywbeth amheuthun ac yn sicr yn rhywbeth i edrych ymlaen ato. Cymeriadau'r fro ddeudis i? Sgersli bilif - ches i ddim byd drwy'r nos ond - Moto Beics!! Mi ddois i wybod mwy am foto beics a'u perfeddau cymhleth mewn dwy awr ag a wnes i mewn oes, ond yn rhyfedd, mi ddois adra wedi mwynhau fy hun tu hwnt yn gwrando ar ddau arbenigwr mor ffraeth yn trafod maes oedd tu draw i'm crebwyll i.

Consyrn Evan tuag at bobol a barodd iddo fo ymuno â'r biogemegydd, Osborn Jones, Llandwrog, i greu peiriant llai ond mwy soffistigedig ac yn fwy hwylus i ddadansoddi'n samplau gwaed ni. Ymunodd Gwyn Jones neu Gwyn R.E. â'r ddau. Hwylustod mawr i feddygon a staff ysbytai ac o fudd mawr i filoedd ar filoedd o gleifion oedd y peiriant newydd. Dechreuodd y tri fel Alpha Beta cyn sefydlu eu cwmni Alpha Dyffryn Cyf. gyda Dafydd Wigley a John Llywelyn Jones yn ymuno â nhw fel cyfarwyddwyr. Erbyn heddiw cwmni o'r Almaen - Siemens - sy'n rheoli'r cynnyrch ar stad Glynrhonwy, Llanberis. Nodwyd

yn Eco'r Wyddfa - 'Diolch am weledigaeth Osborn a dycnwch Evan a Gwyn - cychwyn gyda thri a gorffen hefo pum cant.' Tipyn o glod.

Roedd consyrn Evan tuag at yr iaith Gymraeg yn heintus.

Poenai am safon yr iaith ac am y dirywiad yn y niferoedd oedd yn ei siarad ymhell cyn i unrhyw sensws ein rhybuddio a'n cynhyrfu. Roedd yn rhaid gweithredu - a dyna a wnaeth. Ar wahoddiad Cyd Bwyllgor Addysg Cymru fe dderbyniodd yr her a'r sialens i lunio gwerslyfr swmpus, cynhwysfawr a safonol ar Waith Metel. Dyma oedd ei bwnc fel athro yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Roedd Parry Met, fel y cawsai ei adnabod, am wneud yn siŵr fod disgyblion ei ysgol, a phob ysgol arall drwy Gymru, am gael y cyfle i ddysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei ragarweiniad i'r llyfr dywed y diweddar Ifan Wyn Williams, Pennaeth yr Ysgol ar y pryd, hyn - 'hawdd gweld fod y gyfrol hon yn gynnyrch rhywbeth amgenach na llafur caled.' Oedd siŵr - llafur cariad Evan Parry at yr iaith Gymraeg oedd y cyfanwaith. Fel tae hynny ddim digon aeth ati wedyn i adeiladu labordy iaith yn yr ysgol - un o'r rhai cyntaf yn y wlad.

Gwyddai Evan fod dyfodol yr iaith Gymraeg yn eitha saff yn Nyffryn Peris - ond roedd yn benderfynol o gadw pethau felly. Dyna pam yr ymunodd â John Roberts, Bedw Gwynion, Selwyn Williams a minnau i geisio sefydlu papur bro yma yn Nyffryn Peris. O'r cyfarfod answyddogol a gafodd y pedwar ohonon ni drws nesa i Gapel y Rhos fe sefydlwyd Eco'r Wyddfa o fewn ychydig fisoedd. Ym mis Chwefror 1976 fe welodd y rhifyn cyntaf olau dydd - echnos ymddangosodd rhifyn 409. Tysteb yn wir i'r sefydlwyr, ynghyd â'r ugeiniau a'r cannoedd a fu'n ei gynnal yn gwbl ddi-dâl ar hyd y blynyddoedd.

Mi gafodd Evan a finna gryn dipyn o hwyl a difyrwrch yn mynd o amgylch y fro yn ystod y dyddia cynnar i chwilio am straeon. Dwi'n cofio sipsiwn neu deithwyr wedi cymryd yr hen ffordd ger Craig yr Undeb i fwrw angor, a hynny yn erbyn cynlluniau a rheolau y Cyngor Sir. Roeddwn i am gael sgŵp ac Evan am gael llun o'r rhesiad o garafannau teithiol, a hynny mor agos ag oedd posib. Ymlwybro wedyn bron ar ein boliau i dynnu'r llun. Yna yn sydyn - cyfarthiadau cŵn. Roedd un o'r teithwyr wedi'n gweld ac wedi gollwng y cŵn yn rhydd. Y ddau ohonon ni fel dau blentyn direidus yn ei heglu hi am dro'r twnnel ac i fyny'r graig i ganol yr eithin i chwilio am loches! Roedd y ddau ohonon ni wedi gwahanu erbyn hyn Evan mewn un llwyn o eithin a finna mewn un arall. Doedd yr un ohonon ni chwaith yn ddigon dewr i weiddi ar ein gilydd rhag ofn cynhyrfu'r cŵn ymhellach. Yna daeth arogl cyfarwydd i'm ffroena - arogl mwg baco Evan ac yna mi welais i gwmwl o fwg yn codi o'r llwyn eithin gerllaw. Distawodd y cŵn a daeth y ddau arwr dewr allan o'u cuddfannau.

'Lle aeth y cŵn?' meddwn wrth Evan.

'Dwn i ddim,' oedd yr ateb 'ond ma'n rhaid nad oeddau nhw'n rhy ffordd o maco i!!'

Cofio dro arall cael ein gwahodd i dynnu llun merch ifanc eithriadol o ddeniadol o'r fro a oedd wedi ennill cystadleuaeth genedlaethol 'Y Ferch Berta'. Cytunodd i gael tynnu ei llun gan Evan gyda choron ar ei phen, sash rownd ei chanol ac yn gwisgo'r wisg a ddaeth â'r fuddugoliaeth i'w rhan, sef gwisg nofio.

'Sgin ti hances boced?' medda Evan.

'Pam be sy? Chwysu wyt ti?' medda finna.

'Naci, lens 'y nghanra fi sy'n stemio!' Engraifft eto o'r gŵr hefo'r ateb parod, cynnil a chellweirus.

Mi fydd cynnyrch ffotograffau Eco'r Wyddfa Evan yn para am byth. Nid yn unig y bu'n tynnu lluniau nifer fawr o bobol ond fe gofnododd drwy lens ei gamera achlysuron hanesyddol pwysig. Dwi'n cofio disgwyl ar lan Llyn Padarn am bum awr hefo fo tra roedd deifwyr tanddwr yn paratoi i godi hen gwch a gariai lechi o'r chwarel i Lyn Bogelyn, Cwm y Glo, slawer blwydd yn ôl. Bu'r cwch yn gorwedd ar y gwaelod am flynyddoedd lawer, a toedd Evan ddim am i drigolion bro'r Eco fethu'r achlysur o'r eiliad

roedd yr hen gwch yn cyffwrdd yr awyr iach unwaith yn rhagor. Cadwyd y lluniau gan yr Amgueddfa Lechi. Pan sychwyd Llyn Peris i greu cronfa isaf cynllun cynhyrchu trydan Dinorwig, penderfynodd Evan osod ei gamera ar lan y llyn union yn yr un fan, a hynny o fis i fis drwy bob tywydd fel y gallai ddangos lefel y dŵr yn gostwng yn raddol hyd nes yr oedd yn berffaith sych. Mae'r lluniau yna yn amhrisiadwy erbyn hyn ac yng ngofal Y Bwrdd Cynhyrchu Trydan.

Roedd Evan yn wladgarwr mawr hefyd. Casâi glywed am unrhyw un yn dirmygu neu yn dangos unrhyw fath o amarch tuag at ei wlad. Wffiai at unrhyw weithred o annhegwch a berai ddioddefaint i drigolion ei wlad, a gwylltia'n gacwn os clywai rhywun yn difrio ei genedl. Mewn cyfnod toc ar ôl yr Ail Ryfel Byd pan oedd amarch ac annhegwch yn cael ei ddangos tuag at Gymru a llais y genedl yn cael ei anwybyddu'n llwyr fe benderfynodd Evan a gwroniaid eraill weithredu, a hynny yn anghyfreithlon. Gwyddai Evan yn iawn sut i dorri ar draws tonfeddi'r diwyfr a buan y clywyd lleisiau ein harweinwyr cenedlaethol yn datgan eu negeseuon dros y tonfeddi. Diolch i Evan a'i debyg.

Ymunodd â chwmni Rheilffordd Llyn Padarn fel Cyfarwyddwr am un rheswm yn unig -er mwyn gwneud yn siŵr mai Cymry oedd ar y bwrdd a Chymry Cymraeg fyddai'n rhedeg y busnes.

Mae gen i un stori ar ôl am Evan, ac i mi mae hi'n crisialu'r cyfan am ei bersonoliaeth o. Roedd Evan a Helen, Einir a Gwenno ynghyd â theuluoedd eraill o'r cyffiniau yma yn ymuno yn Sbaen i fwynhau gwyliau â'n gilydd. Am ryw reswm roedd teulu Alwyn a Jean Fleming, Iolo a Nan Hughes Roberts, Ian ac Eirlys Pierce a Carys a finna wedi cyrraedd ddeuddydd ynghynt na theulu Evan a Helen. Mi benderfynais fynd o El Pariso, lle roeddni ni wedi ymgynnull, hefo car i'w tywys o faes awyr Alicante. Roeddwn i yn sefyll ar rhyw falconi uwchlaw'r mynedfeydd yn disgwyl y teulu bach o Ceunant. Ond daeth neges fod awyren Manceinion yn hwyr. Fe arhosais am rhyw awr dda yn gwylio'r tyrfaoedd yn

lifo i mewn. Y mwyafrif ohonyn nhw yn afreolus ac yn anwadal, ond neb o'r swyddogion yn cymryd fawr o sylw ohonyn nhw. Wedi hen arfer mae'n bur debyg â'r mewnlfriad swnllyd. Yna yn eu plith fe ymddangosodd Evan a'r teulu, mi waeddais inna arnyn nhw i gyhoeddi mod i yma i'w tywys i Baradwys - i El Pariso. Fe welodd Evan fi ac ,yn null Y Pab John Paul pan fydda fo'n ymweld â gwledydd tramor, fe aeth ar ei liniau a chusanu'r llawr. Ar amrantiad roedd dau swyddog neu blisman maes awyr wedi gafael yn Evan a'i dywys o'r neilltu. Roeddau nhw wedi anwybyddu cannoedd o anwariaid yn lifo drwy'r maes awyr ac wedi pig o ar Evan. Evan o bawb! Fuo fo ddim yno'n hir. Digwyddodd, darfu megis seren wib. Daeth y tri allan yn wên o glust i glust gan ysgwyd llaw. Y dyn bach a'r galon fawr, y dyn tawel, swil, y dyn llawn hiwmor, slic cellweirus, y dyn a lanwai unrhyw stafell gyda'i bersonoliaeth heintus wedi ennill y dydd unwaith eto.

'Be ddudon nhw wrtha ti Evan?' medda finna.

'Fawr ddim,' medda fo hefo'r wên ddireidus yna a'i nodweddaï, 'wedi meddwl yn siŵr ma fi oedd y Pab mewn disgeis oeddau nhw!'

Helen, Einir a Gwenno a'r teulu oll - dwi'n teimlo braidd yn hunanol yn sôn cymaint am ein colled ni fel ffrindiau, ac ma nhw yma o bell ac agos, ma nhw yma o Glwb Eryri, o Stad Glanffynnon, Llanrug, o ardal ei fagwraeth, o Ddyffryn Nantlle ac o'i ardal fabwysiedig - Dyffryn Peris. Wedi colli un y cawsom y fraint o'i adnabod ydan ni - wedi colli un y cawsoch chi y fraint o fyw hefo fo ydach chi. Roedd ei deulu yn bopeth i Evan ac roedd Evan yn bopeth i'w deulu. I'r byd, gŵr, tad, taid, yng nghyfraith, brawd a brawd yng nghyfraith oedd o - ond i chi y byd oedd o. Oes mae ganddoch chi le heddiw i ddigalonni a thristau - ond y mae ac fe fydd ganddoch chi gymaint i'w edmygu a chymaint o atgofion i'w trysori.

Daeth diwedd cyfnod - ond nid diwedd cof. Bydded i'ch atgofion fod yn falm ar y briw a deimlwch heddiw.



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrrwyr dros **21 oed!**



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**



PEUGEOT

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffordd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y gars neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4-34.9 (3.6-8.1), Extra Urban 88.2-62.8 (3.2-4.5), Combined 83.0-48.7 (3.4-5.8) a CO2 87-135

Arolwg o Weithgareddau Diwylliannol bro'r "Eco".

Manylion fesul pentref.

Gan Rol Williams.

Nant Peris.

Ymddengys fod nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yma, a'r trigolion – yn Gymry Cymraeg a'r di-Gymraeg – yn cyd-gyfarfod a chydweithio.

Da deall fod y Rasys cwnm defaid yn dal i ddenu cynulleidfia deilwng, fel y Carnifal: wythnos o weithgareddau gwahanol ym Medi, gasn gynnwys noson o gawl yn y dafarn leol, y cyfan yn arwain at ddydd Gwyl Ffair Nant (ond yn naturiol, nid ar yr un raddfa a'r hen ffair).

Ceir yma hefyd Glwb Cwiltio yn cyfarfod unwaith yr wythnos a Chlwb Llyfrau yn cyfarfod unwaith y mis i drafod cynnwys un llyfr arbennig. Mae aelodau'r Clwb Ffidil wedi sefydlu Gwyl Ffidil flynyddol yma, gan gynnwys gweithdai, a dros y blynyddoedd, wedi denu dieithriaid o sawl ardal yng ngogledd Cymru. Uchafbwynt yr Wyl yw'r cyngerdd a gynhelir gan yr offerynwyr yn yr eglwys ar derfyn yr wyl.

Cynhelir gwasanaeth Sul yn y capel ac yn yr eglwys.

Amcangyfrifir mai tua 170 yw poblogaeth y Nant.

Llanberis.

Rwyf am fod mor onest ag sydd modd wrth gyfeirio at weithgareddau y pentref mwyaf yn y fro, gydag oddeutu 1700 o drigolion. Rai blynyddoedd yn ol roedd Llanberis yn ferw prysur o bob math o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, gyda chor merched a chor plant o safon cenedlaethol, seindorf, pedwar capel ac eglwys, gydag eisteddfod ym mhob un a chymdeithasau llenyddol ynghlwm a hwy.

Bellach, mae nifer sylweddol o'r gweithgareddau hyn wedi peidio a bod, ac un rheswm am hyn, mi gredaf, yw fod pobl Llanberis yn canolbwyntio ar dwristiaeth, a chorff arbennig o dan y teitl 'Partneriaeth Llanberis' wedi ei sefydlu i hyrwyddo'r economi o fewn y pentref, gyda 'Grwp Datblygu Llanberis' wrth law i hybu'r pentref ar bob achlysur.

Dyma'r unig bentref efo Canolfan Groeso, ac nid oes angen llawer o ddychymyg i gydnabod mai rhan o'r jig-so twristaidd yw'r enwog Ras yr Wyddfa, Marathon Eryri, y Triathlon, y ddwy reilffordd, yr amgueddfa a'r Mynydd Gwefru. Ni ellir anwybyddu y gweithgareddau a'r sefydliadau hyn sy'n rhoi gwaith i lawer o drigolion y pentref.

Yn ddiwylliannol, un Gymdeithas Lenyddol a geir, ac mae'r Clwb Henoed yn parhau. Felly hefyd y Clwb Ieuentid a'r Clwb Snwcer. Ac fel yn y gorffennol, mae yno gwmni drama. Nid yw'r llan yn fud o ganu chwaith, gyda merched Lleisiau Lliwedd a'r cor meibion lleol yn cyfarfod yma. Cynhelir ambell i gyngerdd yn yr eglwys ac yn festri Capel Coch. Jeriwsalem yw'r unig gapel arall ble mae'r trigolion yn addoli, a chynhelir oedfaon yn yr Eglwys Catholig.

Mae yma gangen leol o'r 'Girl Guides', ond diflannodd yr eisteddfod, heb gyfle i'r ifanc loywi eu dawn fel y gwnaeth Hogia'r Wyddfa gynt. Mae'r seindorf hefyd wedi peidio a bod.

Yn ddiwylliannol felly, mae'n anodd canmol y sefyllfa bresennol yn Llanberis.

Brynrefail.

Gan i mi dreulio fy mlynnyddoedd cynnar yma, mae gennyf gryn dipyn o ddiddordeb yn y sefyllfa ddiwylliannol bresennol.

Defnyddir un ystafell o'r hen ysgol sir – Y Caban bellach – fel ystafell i addoli ar y Sul, ac yno hefyd y cynhelir Cymdeithas Lenyddol a'r gangen leol o Sefydliad y Merched. Mae rhai gweithgareddau eraill hefyd nad ydynt yn uniongyrchol wedi eu trefnu gan drigolion y pentref, ond yn foddion i ddenu aelodau'r gymuned i ymuno. Er enghraifft, ceir Noson Cwis rhwng timau lleol unwaith y mis, a phryd o fwyd ysgafn i ddilyn.

Ar un cyfnod roedd cwmni drama yma, ac eisteddfod, ac ambell i gyngerdd a noson lawen os byddai'r diweddar John Morris a minnau wedi llwyddo i ddenu artistiaid. Trefnwyd nifer dda o nosweithiau felly yn ystod y 1950'au.

Er teyrnasiad ac ymdrechion Joseph (Joss) Jones, nid oes bellach na snwcer na billiards ar gael yma, ac mae'r clwb henoed a'r clwb ieuentid wedi darfod – dau glwb a fu yn ddi-os yn foddion dros y blynyddoedd i ddod a'r ifanc a'r henoed i mewn i gorlan gymdeithasol y pentref.

Penisarwaun.

Er gwaethaf canlyniad y Cyfrifiad, mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yma. Ceir Eisteddfod, Clwb Henoed, Clwb Ieuentid, Clwb Snwcer, Noson Wasael y nadolig, Gornestau Chwist er budd coffrau'r eglwys, a Charnifal sy'n denu llu o weithgareddau fel disgo, bingo, mabolgampau, helfa drysor a Chymanfa Ganu.

Mae'r pwyllgor sy'n rheoli'r neuadd gymuned yn trefnu ambell i gyngerdd, ac mae Gwyl ddewi yn cael ei dathlu ar y cyd gyda'r Ysgol Gymuned. Felly hefyd y noson o hwyl a sbri – Miri Mai. Mae nifer o ieuentid y pentref yn aelodau o Seindorf Ieuentid Deiniolen.

Ymddengys fod cydweithrediad hapus rhwng Capel Bosra ac Eglwys Santes Helen, ac amryw o weithgareddau yn cael eu cynnal ar y cyd megis Sul y Cofio, cyfarfodydd Diolchgarwch, dathliadau'r Nadolig a'r Pasg a chyd-addoli ar ambell Sul. Dyma ffaith sy'n haeddu canmoliaeth yn sicr.

Cynhelir Adran yr Urdd yn yr ysgol yn dilyn yr oriau arferol, ac er nad oes cangen o Ferched y Wawr, Sefydliad y Merched na Chymdeithas

Lenyddol, mae eisteddfod bentref yn parhau i gael ei chynnal.

Ymddengys fod nifer o 'bobol ddiarth' (os dyna'r disgrifiad teilwng), ar ol symud i fyw i'r ardal, wedi ymroi i'r gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol – gweithred nad yw'n amlwg ym mhob pentref mae gen i ofn.

Mae'r trigolion yn haeddu eu canmol am yr ymdrechion diwylliannol a chymunedol i ddwyn 'pawb' at ei gilydd.

Cwm y Glo.

Ni ellir anwybyddu un frawddeg yn llythyr y person a gasglodd y ffeithiau i'r arolwg hwn: "ychydig iawn o hen deuluoedd y Cwm sydd yn byw yma erbyn hyn..." Mae ffaith fel hon yn sicr o gael dylanwad ar nifer y gweithgareddau a geir yng Nghwm y Glo, ac amlygir hyn yn y canlyniadau.

Mae gorffennol diwylliannol y pentref wedi denu canmoliaeth y fro ers sawl blwyddyn, ac arferid cynnal Carnifal, Merched y Wawr, Clwb Henoed, Clwb y Graig, cwmni drama a pharti noson lawen yma, ond mae'r cyfan bellach yn prysur fynd yn angof.

Mae'r pentref yn rhannu eisteddfod gyda Llanrug, a hynny'n foddion i'r ifanc ymarfer eu doniau. Bu yma neuadd bentref, ond bu'n rhaid ei dymchwel, ac yn ddi-os cafodd hynny effaith ar fywyd y Cwm. Mae'r hen dafarn boblogaidd, Y Fricsan' hefyd wedi cau.

Cofiaf o brofiad fel y byddai rhai o drigolion y cwm yn cyd-gyfeilio gyda sawl ffidil yn y Gymanfa ddosbarth ers talwm – y nhw oedd yr unig rai yn y cylch, a chefais gryn bleser o ddeall fod yn y pentref Glwb Ffidil. Tybed ai disgynyddion yr hen griw yw'r rhain?

Yr addoldai yma yw Capel y Tabernacl ac Eglwys Sant Gabriel.

Nid yw'n blesaer gorfod cofnodi dirywiad Cwm y Glo. Gobeithio'n wir na fydd yn dilyn Dinorwig, ond mae'n ymddangos fod lle yma i bryderu.

Caeathro.

Defnyddir yr Addoldy yng Nghaeathro i gynnal holl weithgareddau'r pentref, a rhai o'r tu allan fel y Clwb Garddio a Chlwb Jiwdo Segontium. Unwaith yr wythnos bydd y bechgyn lleol yn mwynhau gem o pwl. Cynhelir dosbarth arlunio dan nawdd y WEA a Chlwb y Merched hefyd yn fisol. Mae maes parcio cyfleus ar gyfer yr adeilad, ac wrth reswm ceir oedfa'r Sul yma, er nad oes Ysgol Sul eleni.

Mae yma hefyd ymroddiad o dan arweiniad pwyllgor gweithgar i gynnal y cae chwarae. Un o'r gweithgareddau rheini yw Miri Medi neu Garnifal.

Gan mai mynychu Ysgol Bontnewydd a wna plant y pentref, eisteddfod y pentref hwnnw sy'n elwa o'u doniau.

Da deall fod sawl teulu Cymreig wedi symud i'r pentref i fyw, ac yn gynnar ymroi i'r gweithgareddau pentrefol. Mae'r tueddiad yma yng Nghaeathro yn sicr yn awgrymu llwyddiant i'r dyfodol yn yr ymdrechion i gynnal y bywyd Cymreig yno.

Rhaid nodi fod sefyllfa Caeathro yn unigryw o'i gymharu a phentrefi eraill y fro, gan mai i Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon y mae'r plant yn ei mynychu. Ni fu ac nid yw'r cefndir chwarelyddol mor ddylanwadol yma.

Deiniolen.

Gwn fod amryw yn cofio bwrllwm diwylliannol yma; yr unig bentref yn y fro gyda dau enw arall iddo! Arferai fy mam ddweud yn gyson fod pobol Llanbabo, pan yn ymgymeryd ac unrhyw weithred gyhoeddus, yn sicr o 'wneud job iawn ohoni'. Tybed ai dyna'r agwedd y dyddiau hyn?

Heddiw cynhelir yma eisteddfod, cymdeithas lenyddol, ambell gyngerdd, clwb ieuentid, cangen o Ferched y Wawr, Clwb Snwcer a Billiards, tim peldroed, a Chymdeithas Golff (nid yn ymarfer ar lethrau'r Bigil, ond yn ymweld a gwahanol gyrsiau golff yn eu tro). Mae yno Garnifal blynyddol a Seindorf o fri sy'n dal i ddenu ieuentid y cylch, ac yn codi rhywfaint o gywilydd ar ambell bentref arall a roes y trombon yn y to heb fawr o ymdrech i barhau.

Maer yma ganolfan hwylus – Ty Elidir – ble cynhelir sawl gweithgaredd. Y syndod yw nad oes Clwb Henoed yma bellach, na dosbarth WEA chwaith.

Eglwys Llandinorwig, a chapeli Ebenezer a'r Bedyddwyr yw'r unig addoldai bellach.

Ceir yno hefyd barti canu i blant – Lleisiau Llanbabs – a hwnnw'n un llwyddiannus iawn.

Cysylltir Clwt y Bont gyda Penisarwaun yn y Cyfrifiad, cysylltiad allai rtoi cam-argraff ar wir nifer y Cymry ym Mhenisarwaun. Lle i ganmol eu hymdrechion sydd gan drigolion Deiniolen, ac er mai 74% yw nifer y Cymry Cymraeg yno, mae'n amlwg fod llawer ohonynt yn rhoi eu hysgwydd dan y baich.

Dinorwig a'r Fachwen.

Dyma'r sefyllfa ddiwylliannol Gymreig fwyaf digalon yn yr holl ardal.

Oni bai am rai gwasanaethau yn addoldy Sardis, Capel y Bedyddwyr, nid oes yr un gweithgaredd Cymraeg na Chymreig yn Ninorwig bellach. O gofio'r bwrllwm pentrefol a fu, mae hyn yn peri arswyd rhag

Parhad
Arolwg o Weithgareddau Diwylliannol bro'r "Eco".

i'r aflwydd ledauen i bentrefi eraill y fro, yn enwedig un neu ddau o'r pentrefi llai. Gofaled rhag hynny ar bob cyfrif.

Rydym wedi ein hatgoffa yn ddiweddar am gymdeithas goll Tryweryn. Mae'n anodd peidio a gofyn yn ddifrifol onid yw sefyllfa Dinorwig heddiw yn Dryweryn o fath arall? Mae nifer y pentrefwyr di-Gymraeg yn Ninorwig yn fwy niferus na'r Cymry Cymraeg: dyna'r gwir, ac mae'r hen weithgareddau wedi diflannu mewn niwl anghofiedig. Mae'r selogion bellach yn teithio i Ddeiniolen i addoldai a chymdeithasau Cymraeg.

Stori o ddigalondid yw hanes Dinorwig.

Bethel.

Dengys y Cyfrifiad fod 85% yn Gymry Cymraeg, ac y mae'r nifer sylweddol hwn yn cael ei adlewyrchu yng ngwahanol weithgareddau'r pentref.

Mae un ffaith newydd wedi dylanwadu ar drigolion Bethel; ffaith sydd efallai wedi eu closio at weddill pentrefi dalgylch yr 'Eco', a'r ffaith honno yw fod plant Bethel, ers sawl blwyddyn bellach, yn mynychu Ysgol Brynrefail (fel ac y mae plant y Waunfawr erbyn hyn).Roedd nifer sylweddol o ddynion Bethel yn gweithio yn Chwarel Dinorwig hefyd; yn mynychu Capel Cysegr ac yn cyd-fynychu Cymanfa capeli dalgylch Methodistiaid y cylch.

Heb os mae bwrlwm o weithgaredd lleol a chymdeithasol yma, ac heb os, gallaf ddatgan yn ddibetrus, mai Bethel, o holl bentrefi'r fro, sydd yn denu pob canmoliaeth ddiwylliannol. Mae yno griw o drigolion gweithgar ac unedig, yn fwy na pharod i gynnal sawl agwedd o'r diwylliant Cymreig.

Ceir ym Methel eisteddfod, Cymdeithas Lenyddol, Clwb Henoed, Clwb Snwcer a Billiards, Tim Peldroed, Merched y Wawr, dosbarth Yoga, ac yn ddiweddar sefydlwyd cymdeithas newydd, sef Cymdeithas Gwyl Bethel.

Mae yno ddau gapel yn cynnal oedfaon y Sul, sef Cysegr a'r Wesleaid. O dro i dro cynhelir cyngerdd yn y dafarn leol.

Waunfawr.

Dyma'r pentref ble bum yn byw ers triugain mlynedd, a gwelais newid sylweddol a dirywiad ym mywyd diwylliannol a chymdeithasol y pentref yn y cyfnod hwnnw. Mae yma Ganolfan y byddai sawl pentref mwy yn falch ohonno, ond nid yw'n cael ei lawn ddefnyddio gan y gymuned yn y Waunfawr.

Er sawl ymdrech methwyd ac ail gychwyn y Gymdeithas Lenyddol na Chlwb yr Henoed. Bu'n rhaid dod ac addoli i ben yn yr eglwys oherwydd cyflwr yr adeilad; diflannodd y cwmni drama a does dim carnifal yn cael ei gynnal yma chwaith. Arferai cor cymysg gael ei gynnal, ond gwaetha'r modd, nid yw hwnnw yn bodoli bellach chwaith. Prysuraf i longyfarch rhai o'r gwagedd ifanc aeth ati gyda brwdfrydedd y llynedd i ail-gychwyn eisteddfod bentref. Dalier ati!

Mae cangen o Sefydliad y Merched a changen o Ferched y Wawr yn bod – un o'r ychydig bentrefi o bosib ble ceir y ddau fudiad yn cyd-fodoli. Ceir Clwb Ieuentid, a daw rhai o'r trigolion ynghyd (ac eraill o'r tu allan) i chwarae bowls yn y Ganolfan.

Er nad yw Antur Waunfawr yn dod o dan ambarel yr arolwg hwn, rhaid cyfeirio at ei lwyddiant ysgubol, ac at y parch a'r bri cenedlaethol a ddaeth i'w ran. Hir y pery felly.

Unwyd dau gapel yn un eglwys – Eglwys y Waun, ond y mae'r addoldai eraill wedi cau.

Siom yw datgan fod bywyd diwylliannol y Waunfawr mewn sefyllfa enbydus. Eironi'r sefyllfa yw fod yma adnoddau gwych gyda chanolfan hwylus a maes parcio, a phoblogaeth ddigon niferus i gynnal mwy o weithgareddau.

Llanrug.

Un o bentrefi mwya'f y dalgylch ac un sy'n gyson ehangu. Dyma'r pentref gyda'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Anrhydedd annisgwyl, efallai, ond anrhydedd gwerth ei gofleidio. Da iawn, Llanrug.

Ond beth yw'r arlwy ddiwylliannol yma?

Cynhelir eisteddfod bentref flynyddol, ac wrth reswm, ceir eisteddfod Ysgol Brynrefail hefyd. Yn neuadd yr ysgol cynhelir amryw gyngherddau o dro i dro, ond nid o reidrwydd wedi eu trefnu gan drigolion Llanrug. Mae yma Glwb Ieuentid, Clwb Snwcer/Billiards, Merched y Wawr, dosbarthiadau dysgu Cymraeg, dosbarth dysgu cyfrifiaduron, dau dim peldroed yn y Gynghrair a thimau peldroed plant a ieuentid – yn fechgyn a merched, timau dartiau a pwl yn nhafarn Penbont, Clwb CIC (Clwb Ieuentid Cristnogol), a seindorf (gan gynnwys un ieuentid) o gryn ddylanwad ers blynnyddoedd. Mae parti canu Clychau'r Grug yn ymarfer yma hefyd, felly hefyd tim hoci Caernarfon.

Ni cheir yn Llanrug Gymdeithas Lenyddol na Chlwb Henoed; ffaith braidd yn syndod o gofio nifer y boblogaeth.

Mae tri chapel ac eglwys y plwyf ble cynhelir gwasanaethau ar y Sul.

Teg gofyn a oes awydd yn Llanrugi gynnal Clwb Henoed a Chymdeithas Lenyddol, gan fod bwlch diwylliannol yma ar hyn o bryd.

Un funud fach ...

PROFI'R TÂN

'Plis, ewch o'ma! Plis, Dad, o'ma rwan!' Eiliadau cyn hynny roedd y bachgen a'i dad yn eistedd yn eu car yn gwylio a ffilmio'r tân mawr yn llosgi'r ffatri mewn ffatri wrtaith yn West, ger Waco, Texas. Ond yn gwbl annisgwyl i'r ddau, cafwyd ffrwydrad dychrynlyd a ysgydwodd bopeth - yn cynnwys eu car nhw - a chlywyd yr hogyn yn gweiddi ac yn erfyn ar ei dad i yrru oddi yno ar unwaith. Llwyddodd y ddau i ddianc ond bu farw oddeutu 15 o bobl ac anafwyd dros 150 yn y ddamwain fawr hon.

Doedd y bachgen a'i dad ddim gwahanol i bawb arall a gafodd eu denu erioed gan olygfeydd dramatig. Wrth fynd heibio i ddamwain ffordd, er enghraifft, mae'n debyg bod y mwyafrif o bobl yn arafu er mwyn gweld beth a ddigwyddodd. Mor aml y bydd tyrfa'n ymgasglu pan ddaw pobl i wybod am ryw ddigwyddiad anghyffredin. Ond daeth y tad a'r mab yn West yn rhan o'r stori, a bu ond y dim iddyn nhw fod yn fwy o ran nag oedden nhw hyd yn oed. Roedden nhw'n meddwl eu bod nhw'n ddiogel, bellter o'r ffatri, ond nid felly y bu. Yn y diwedd roedden nhw'n ddiolchgar iawn mai ar ymylon y stori yr arhoson nhw gan y gallai pethau fod yn wahanol iawn.

Fe ddaw'r Sulgwyn cyn hir, a byddwn fel eglwysi'n cofio'r hyn a ddigwyddodd pan dywalltodd Duw'r tân o'r nef ar yr apostolion hanner can niwrnod wedi'r Pasg. Ychydig o sylw a roddwn i'r Sulgwyn o'i gymharu â'r Pasg a'r Nadolig, a thueddu i edrych ar yr ŵyl hon o'r ymylon rywsut a wnawn ni. Fel y bachgen a'i dad, gwylio o'r cyrion a wnawn ni heb feddwl y bydd y cyfan yn ein cyffwrdd ni. Soniwn am y tân nefol a'i ddylanwadau heb ddisgwyl iddo ein cynhesu na'n cyffroi. Ond wrth i ni ddathlu'r Sulgwyn eleni, gweddiwn am gael ein tynnu rywsut i ganol y stori. Gweddiwn am i'r tân gael ei anfon ac i'r Ysbryd Glân weithio'n rymus yn ein plith. Ie, yn ein plith ni yn yr ardal hon, yn yr eglwysi hyn yr ydym yn perthyn iddyn nhw. Buom ar yr ymylon yn rhy hir o lawer, yn gwylio o bell yr hyn a wnaeth Duw yn nyddiau cynnar yr Eglwys a'r hyn a wnaeth mewn gwahanol gyfnodau yn hanes ein gwlad ninnau. Mae'n bryd i ni fod yn rhan o'r cynnwrf; mae'n bryd i ni gael prawf o Dduw yn gweithio'n nerthol yn ein plith ni. Gweddiwn y bydd Duw yn trugarhau wrthym ac yn rhoi i ni'r fraint o'i weld yn gweithio'n rymus er mwyn ei ogoniant.

JOHN PRITCHARD

Côr Meibion Dinas Bangor

Braf yw cyhoeddi fod Lowri Prys Roberts Williams o Frynrefail wedi cael ei phenodi yn Arweinydd Cor meibion Dinas Bangor i olynu James Griffiths ar ôl ei ymddeoliad ar ddiwedd Ionawr wedi 25 mlynedd yn arwain y Côr.

Y mae aelodau y Côr yn hynod falch o'r penodiad oherwydd bu Lowri yn Gyfeilydd am bron iawn i 25 mlynedd. Felly braf yw edrych ymlaen at gyfnod newydd yn hanes y Côr o dan ei harweinyddiaeth. Cyfeilydd y Côr i olynu Lowri fydd Gwilym Lewis o Gaergybi, sydd eisoes wedi bod yn gweithredu fel Is Arweinydd. Y mae Barry Wynne o Ffordd Islwyn, yntau yn aelod ffyddlon o'r Côr ers blynnyddoedd, wedi cael ei benodi yn Is Arweinydd. Yn ogystal â hyn bydd y cyn-Arweinydd hefyd wrth law i helpu allan mewn unrhyw ffordd pan fydd angen hynny. Y mae'r Côr yn hynod ffodus o gael tîm o gerddorion yn barod i weithredu ac i fwrw 'mlaen i sicrhau dyfodol i'r Côr sydd, ers blynnyddoedd bellach, wedi cyfrannu cymaint i gerddoriaeth a mwynhad canu ym Mangor fel côr y ddinas.

Dymunir pob llwyddiant i Lowri, Gwilym a Barry.

Dyma gyfle gwych yn awr i ddarpar gantorion ddod ymlaen i lenwi rhengoedd y tenoriaid a'r baswyr.

Dewch i Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd unrhyw nos Fercher rhwng 7-30 a 9-30 o'r gloch.

Ar ben arall i'r lein



Rwy'n teimlo fy mod fel tiwn gron yn cwyno am un peth neu gilydd ac felly, rhag i chwi gael eich siomi, y gŵyn fawr heddiw yw'r tywydd, a'r ffaith fy mod heb allu chwifio'r wialen ar ddiwrnod cyntaf y tymor. Y rheswm wrth gwrs yw'r tywydd 'ma. Rwy'n credu erioed mai pleser yw pysgota dim cosb, ond dyna fuasai'r sefyllfa os buasai rhywun wedi mentro allan yn yr oerfel a fu'n chwipio o'n cwmpas hyd at ganol Ebrill. Mae un pwynt pwysig arall i'w gysidro, sef fy mod wedi dathlu rhyw ben-blwydd go arbennig (gwaetha'r modd) ar ganol Ebrill. Felly tra'n disgwyl am y diwrnod holl bwysig yna roedd yn bosib codi trwydded bysgota'r wlad am bris gostyngedig. Ia i lawr o £73 i £48. A gyda'r arbediad yna fe ddaeth y sbardun i ymweld ag Ardal y Llynnoedd am rhyw ychydig ddyddiau.

Mi oedd rheswm arall am yr ymweliad gan fy mod wedi cael gwahoddiad i 'sgota rhan o'r Afon Caint, sy'n rhedeg drwy dref Kendal ac allan i Fae Morecambe. Lle delfrydol i daflu pluen, ond dim byd gwell nag sydd yma ar drothwy drws ein hunain. Ond gan fod y cynnig yn sefyll bydd rhaid ymweld am rhyw ychydig yn ystod Medi neu ddechrau Hydref.

O Kendal fe aethom ymlaen i Skelwith ble mae'r Afon Brathay, sy'n llifo o Lyn Elter, ac wedyn ymlaen i Windermere, o ble mae'r Afon Leven yn llifo i'r môr, eto drwy Fae Morecambe. Un peth oedd yn eglur drwy eu habsenoldeb oedd rhai yn pysgota! Rwyf yn ddigon cyfarwydd â'r problemau mae'r torgoch yn ei wynebu yn Llyn Windermere, 'run fath modd â Padarn, gyda charthffosaieth yn wreiddyn. Yn y gornel fach yma o Eryri rydym yn ymdrechu i oresgyn y sefyllfa ddifrifol, ond o be glywais gan rai yn y llynnoedd, mae pethau bron ar ben yno a'r genweiri i gyd yn segur yn eu cypyrddau.

Fel y gallwch ddychmygu, yn y dafarn gyda'r nos yr oedd y gwirionedd -neu peth o honno i'w gael!! Gwesty Pont Skelwith oedd y llety, sydd ond rhyw ganllath o lannau'r Afon Brathay,



afon sydd wedi ei chyfeirio ati fel afon eog o nodyn yn llyfr Augustus Grimble yn 1913. Mae'n afon hyfryd, tua'r un maint â'r Seiont, ni welais arwydd o glwb pysgota o unrhyw fath, hyd yn oed ym mhentref Elterwater. Gofynnais i rai yn y gwesty a hefyd o amgylch a oedd cyfle i daflu pluen am rhyw ychydig. A'r ateb a gefais oedd - paid â gwastraffu dy amser nid oes 'sgodyn wedi ei weld yma ers blynnyddoedd. Wrth fynd o amgylch yr ardal at Keswick buan iawn y sylweddolais pam. Dydw i ddim ar ehangu ar hyn heddiw, ond rhaid ymladd yn galed yma i sicrhau nad yw'r un problemau yn ymledu dros Glawdd Offa.

Drwy edrych ymlaen at y cynhesrwydd, mae'r stoc cyntaf o frithyll yr enfys wedi eu gollwng i Dywarchen, ac mae rhai yn mentro yno'n barod. Gobeithio y bydd rhai ar ôl i'r badell gan fod y lle yn denu pysgotwyr pluog. Mae carfan o Filidowcars neu Llancau Llandudno, pa enw bynnag y mynnwch eu galw, yn gwledda yno'n rheolaidd. Hefyd mae gwalch y Pysgod wedi canfod ei ffordd o'r nythfa ar y Glaslyn, neu efallai fod mwy na'r pâr sefydlog yma o gwmpas erbyn heddiw. Gadewch imi wybod os gwelwch chi rhain, gan fod rhai cymdeithasau yn cael cefnogaeth ariannol fel ad-daliad am eu colledion.

Mae'r gwaith o hwyluso adeiladu glanfa i'r cwch cadair olwyn wedi dechrau ar Dywarchen. Drwy fod y llyn unwaith eto yn llenwi mae argae 'coffer' wedi ei adeiladu i gadw safle'r llwybr yn sych. Rhaid disgwyl am yr hawl cynllunio cyn dechrau arni go iawn. Diolch o galon i swyddogion Parc Eryri a Chyngor Gwynedd am eu gwaith di-flino at y cynllun yma. A wyddoch chi beth rhyfedd, gan fod Dywarchen wedi bod yn isel iawn am bron i dri mis does neb wedi dod ar draws y Tylwyth Teg eto, os nad oes rhywun yn gwybod yn well, wrth gwrs!

Wel dyna ni am y tro, a gobeithio bydd tipyn mwy i'w adrodd yn lleol mis nesaf.

Huw Price Hughes



Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwch chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen
Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi
Unigolion dros 50 oed sydd angen
cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com





Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Cofio 4: Rhwydo'r Olyniaeth

Yn 7 troedfedd 4 modfedd Alan Bannister oedd y person talaf i mi ei weld erioed. Yn gyn-chwaraewr yng Nghynghrair Pêl-Fasged America (NBL), daeth i Ynys Môn fel hyfforddwr pêl-fasged am ddwy flynedd yn y 90a'u. Cododd hyn broffil y gêm ar yr ynys. Hyd hynny roedd y pwyslais ar y prif gemau. Heddiw mae'r pwyslais yn troi oddi wrth y gemau tuag at elfennau ffitrwydd. Prin iawn, ar wahan i gemau cwpan, yw'r gemau rhyng-ysgolion. Yr oedd hybu diddordeb yn y gemau 'lleiafrifol' felly yn dibynnu ar ddiddordeb athrawon unigol, neu hyfforddwyr di-dâl yn barod i gynnal y fflam. Yn fy nghyfnod i ym myd y bêl-fasged y ddau athro oedd Phil Holland (Caergybi/Brynrefail) a Hefin Jones (Dyffryn Nantlle).

Dan ddylanwad Hefin, datblygodd diddordeb Arwel Jones yn y gamp. Erbyn hyn prifathro yr Hendre yw Arwel ac yn dad i Aled a Gerallt. Dyma'r olyniaeth sydd wedi tanio'r fflam erbyn hyn.

Wedi dyddiau coleg, dechreuodd Arwel hyfforddi yn ardal Caernarfon, ac yna datblygu tîm ieuencid i'r cylch. Ond nid hyfforddi yn unig. Datblygodd yn drefnydd a gweinyddwr medrus, ac yn fuan sefydlwyd Cynghrair Ieuencid y Gogledd. Tipyn o faich ar ysgwyddau un dyn. Wedi cyfnod, trodd Arwel at ei ail bleser – pêl-droed - a bu'n hyfforddwr timau ieuencid ym Methel, ei bentref mabwysiedig. O golli'r 'deinamo' yn fuan iawn diflannodd y gynghrair bêl-fasged.

Yr oedd y meibion yn dangos diddordeb ac yn ffodus o'r cyfleon ym Mrynrefail a chydâ'r hyfforddwr, Tony Roberts, yng Nghaergybi.

Aeth Aled draw i Brifysgol Caerdydd i ddilyn cwrs Datblygu Busnes. Yno cafodd ddigon o gyfle i chwarae ac, yn ei flwyddyn olaf, Aled oedd capten tîm y Brifysgol. Gwnaeth Gerallt tipyn o argraff a chafodd sawl 'cap' tra'n ddisgybl ym Mrynrefail, ac arwain y tîm cenedlaethol ar adegau. Ar sail y dalent yma cafodd wahoddiad i'r Institiwt Chwaraeon yn Colchester. Mae ei gêm yn datblygu ac mae sôn efallai y bydd yn cael Ysgoloriaeth Pêl-Fasged yn yr Unol Daleithiau y flwyddyn nesaf.

Erbyn hyn mae 'batri' Arwel wedi ail danio a daeth llwyddiant eleni. Ffurfiwyd tîm y Caernarfon Celts gyda'r aelodau o ogledd Gwynedd a Môn. Hyfforddi cyson draw ym Mhlas Ffranc, Bethesda. Hefyd mae Arwel ac Aled yn cynnal nosweithiau hyfforddi i chwaraewyr -18 yng Nghanolfan Caernarfon ar nos Wener, gyda rhai dan 15 o 7pm i 8pm, a'r oedran hyn o 8pm i 9.30pm. Croeso i aelodau newydd. Y bwriad yw bod llif naturiol bellach o'r adrannau iau trwodd i'r tîm dynion.

Yna'r llwyddiant cyfredol. Hwy yw Pencampwyr Cynghrair y Gogledd (ennill 13/15).

Maent yn rownd derfynol Cwpan y Gogledd, ac yn un o'r pedwar olaf fydd yn cystadlu am Gwpan Cymru. Tipyn o dymor. Gobeithiaf groniclo'r canlyniadau y tro nesaf.

Ymroddiad y teulu felly wedi ail danio'r fflam yn yr ardal yma. Diolch iddynt, a phob hwyl yn y dyfodol.

Marathon Llundain

Ond nid y ddau yma oedd yr unig rai i wneud eu marc ym Marathon Llundain. Daeth Arwel Lewis o Fethel a Bryn Williams dros y llinell derfyn yn agos iawn, gyda llai na thri munud yn eu gwahanu. Gorffennodd Arwel mewn 3 awr 3 munud 24 eiliad a Bryn mewn 3 awr 5 munud 52 eiliad. Llongyfarchion hefyd i Emyr Gibson (Deiniolen gynt) ar gwblhau ei farathon gyntaf mewn llai na phedair awr tra'n codi arian dros elusen.

Bythefnos ynghynt roedd Dyfed Thomas, Llanrug yn gorffen yn ddeugeinfed ym Marathon Blackpool mewn amser o 3 awr 6munud. Hefyd yn y deugain uchaf roedd Aaron Nicholas (gynt o'r Waunfawr). Ac yn ystod y dydd, rhedodd Rhian, gwraig Dyfed yr hanner marathon a thorri ei record bersonol.

Mae'n bosib fod Alun a Rob yn edrych ymlaen am Gemau'r Gymanwlad a gynhelir y flwyddyn nesaf yn yr Alban, a gobaith gan y ddau o gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y ras farathon. Bydd gweddill rhedwyr marathon y fro a'u llygaid ar Farathon Eryri yn ddiweddarach eleni, a siawns na welwn fwy o lwyddiant eto.

RHEDEG MYNYDD

Mae pedair o Rasys Nos Fawrth, a noddir gan siop Joe Brown, Llanberis, wedi eu cynnal hyd yn hyn, a'r cystadlu wedi bod yn frwd iawn, gyda chyfartaledd o gant o redwyr yn troi allan yn adran yr oedolion a thua hanner cant yn adrannau'r ieuencid.

Mae Mathew Roberts, enillydd y llynedd wedi cystadlu mewn dwy ras gan orffen yn drydydd ar y Foel Lus ac yn gyntaf ym Mhendinas, Nant Peris. Bydd yn anodd cipio'r llawryf oddi arno eto eleni. Yn yr adran dros 40 oed, mae Paul Jenkinson, o'r Waunfawr yn rhedeg yn dda; felly hefyd Phil Jones, eto o'r Waunfawr, yn yr adran dros 60 oed. Bydd yn anodd i unrhyw un guro Maggie Oliver o Ddinorwig yn yr adran i ferched dros 60 oed. Ond mae chwech ras arall i fynd, a gall pethau newid – er gwell neu er gwaeth!

Seren y Rasys hyd yn hyn yw Bronwen Jenkinson. A hithau'n cystadlu dan 16 oed, ac yn ennill yr hawl i redeg gyda'r oedolion, chwalodd ei gwrthwynebwyr yn y ddwy ras gyntaf ar Foel Tryfan a'r Foel Lus. Daeth yn gyntaf yn y ddwy ras, gan guro rhedwragedd profiadol; nid yn unig hynny, ond torrodd record y ddwy ras hefyd.

Yn ystod y mis nesaf cynhelir un o glasuron rasys mynydd Prydain, sef crib Moel Eilio, a gobeithio y gwelir criw da o hogia a genod lleol yn cystadlu.


Arwain Ar Gyfnod Cyffrous

Un o'r datblygiadau mwyaf yn lleol ac yn genedlaethol, heb os, yw ym myd pêl-droed merched. Erbyn hyn mae strwythr cynghreiriol sefydlog yn lleol, ar lefel Gogledd Cymru ac erbyn hyn Cynghrair Genedlaethol. Ar ben hyn mae safon yr hyfforddi wedi gwella. Mae perfformiadau timau cenedlaethol Cymru hefyd yn gwella. Oherwydd niferoedd roedd tueddiad i'r timau Cymreig fod yn 'ifancach' na'u gwrthwynebwyr yn aml. Serch hynny mae perfformiadau yn gwella a genethod Cymru yn cystadlu ar lefel Ewropeaidd. Mor falch ydym o weld rai fel Lois Regan a Chloe Hughes yn dilyn yn ôl troed Manon Lloyd Williams o'r dyddiau cynnar 'amaturaid'. Y gwahaniaeth erbyn hyn yw proffesiynoldeb y paratoi, a'r gwelliant mewn cyfleusterau.

Ar y lefel genedlaethol un sy'n cyfrannu fel is-reolwr y tîm yw Steven Owen, Afon Rhos, Llanrug. Enillodd Steven ei 'gap coch' fel gôl-geidwad talentog, a chynrychiolodd nifer o brif dimau'r Gogledd. Wedi i'w yrfa ddod i ben datblygodd yn hyfforddwr gôl-geidwaid llwyddiannus. Mae'r profiad yma yn cael ei ddatblygu ar lefel rhyngwladol bellach. Braf yw cyhoeddi hefyd fod y Gymdeithas Bêl-Droed wedi agor y Maes Hyfforddi Cenedlaethol yng Nghasnewydd erbyn hyn. Pob hwyl i Steven yn ei swydd ac edrychwn ymlaen i fwy o enethod yr ardal yn profi'r wefr o wisgo'r crys coch.



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Dringwyr ifanc ar y brig.



Caitlin Forrest



Kierran Forrest (de) a ddewiswyd i ddringo dros Gymru.

Mae tri o ddringwyr ifanc o'r fro wedi eu dewis i gynrychioli Cymru mewn pencampwriaeth yng Nghaeredin yn ystod mis Mehefin. Bydd y brawd a chwaer, Kierran a Caitlin Forrest o Geunant, a Sophie Richards o'r Waunfawr yn teithio tua'r gogledd yn dilyn eu llwyddiant yn ystod y mis a aeth heibio mewn Treialon Dringo a gynhaliwyd yng Nghanolfan Beacon, Cibyn, Caernarfon. Cychwynnodd y ganolfan ddringo hon ei hoes ym mro'r "Eco" yn hen adeiladau Marconi, Ceunant. Maent bellach wedi symud i Cibyn (hen stiwdio Barcud) ac yn llwyddo i ddenu dringwyr o bob gradd yno.

Roedd 67 o ddringwyr ifanc, yn amrywio o ran oedran o 8 i 16, yn cystadlu. Rhannwyd y gystadleuaeth i ddwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn profi gallu technegol, a'r dringwyr yn ceisio concro tair dringfa dechnegol. Yn yr ail ran roedd angen i'r cystadleuwyr brofi eu gallu efo rhaffau, a'r plant hynaf yn gorfod gosod y rhaffau eu hunain. Camp yn golygu gallu technegol, ffitrwydd a dyfal-barhad.

Y tri uchaf ym mhob grwp oedran – yn fechgyn a genethod – oedd yn ennill eu lle yn nhim Cymru. Yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig gan ddringwyr o dde Cymru, llwyddodd deuddeg o ddringwyr y gogledd ennill eu lle yn nhim Cymru – dwywaith yn fwy na'r llynedd. Dengys hyn fod Academi Ddringo Ieuentid Gogledd Cymru yn llwyddo, a gyda chefnogaeth y rhieni a'r hyfforddwyr, bydd y llwyddiant hwn yn parhau. Rhaid rhoi clod hefyd i'r dringwyr ifanc am eu dyfal-barhad gyda champ anodd, ond un a ddylai fod yn boblogaidd iawn mewn ardal fel Eryri!

Mae gan y rhai a ddewiswyd i garfan Cymru wyth wythnos galed o ymarfer yn eu hwynebu, gan fod y gystadleuaeth Brydeinig yn un llawer caletach na'r hyn a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Dyma fydd y tro cyntaf i Caitlin, (8 oed), a Sophie, (14 oed) i gystadlu ym mhencampwriaethau Prydain, ond mae Kierran yn hen law arni, oherwydd daeth yn Sed yn yr un gystadleuaeth y llynedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Caitlin am ennill ras traws-gwlad yr Urdd yn ddiweddar yn y Faenol.

Sawl Pot I Ddod?

Ers pythefnos bu llawer yn dilyn y cystadlu brwd draw yn y Crochan yn Sheffield.

Bu hwn yn dymor hynod o lwyddiannus i Glwb Snwcer Bethel. Maent yn aelodau o Adran B Cynghrair Bangor a'r Cylch. Mae tymor y gynghrair newydd ddod i ben, a chyda dim ond un gêm wedi ei cholli a dwy gêm gyfartal allan o 24, hwy yw'r pencampwyr haeddiannol. Tipyn o record. Yn amlwg bu chwarae cyson gan bob aelod o'r tîm, ond bydd tlws y 'best performance' yn mynd i Tony Thomas trwy ennill 16 gêm allan o 23. Bydd Gerallt Williams hefyd yn falch gan mai ei rediad ef o 74 yw'r rhediad uchaf yn y gynghrair eleni.

Mae cryn edrych ymlaen i rownd derfynol Cwpan y Gynghrair gyda Bethel yn herio y Groeslon, a orffennodd yn ail yn y gynghrair.

Ond mae gobaith am dlysau i ambell unigolyn hefyd. Bydd Rhys ac Iorwerth Lewis yn cystadlu yn rownd derfynol y Parau, ac mae Rhys – capten y clwb - wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol yng nghystadleuaeth y Senglau. Gobeithiaf gael lluniau o noson wobrwyo y Gynghrair y mis nesaf.

Fel mae'n hysbys y mae Pwyllgor y Neuadd Goffa wedi llwyddo i ddenu grant sylweddol i wella'r cyfleusterau. Bydd hyn yn gaffaeliad i'r Clwb Snwcer. Maent hefyd yn cynnal trafodaethau i weld sut gellir denu ac integreiddio chwaraewyr ieuanc i'r clwb.

“You'll Never Walk Alone?”

O'r Kop, ddaw siantio i'r ces, - eu harwr,
y sgoriwr di-rodres?
Er hoel brath, ai'r "hael â'i bres"
yw'r insiwrans ar Suarez?

Tua'r Terfyn

Dal i frwydro ymlaen mae'n timau pêl-droed. Gall Llanrug a Llanberis fod yn fodlon iawn â'r tymor, ac mae rhai yn darogan y gallai hogiau Eithin Duon fod yn dim gyda chyfle da y tymor nesaf. Bydd tîm ifanc Llanberis flwyddyn yn fwy profiadol, ac mae eu perfformiadau clodwiw diweddar yn erbyn y ceffylau blaen, Caernarfon a Threffynnon, yn argoeli'n dda.

Os llwydda Waunfawr i ennill eu gemau mewn llaw gallant orffen yn ail yng Nghynghrair Gwynedd. Mae'n ymddangos mai un tîm fydd yn cael dyrchafiad, felly bydd y Beginifs yn edrych ymlaen at y tymor nesaf hefyd.



Hogia lleol yn cefnogi Wrecsam yn Wembli. Oedd, roedd hi'n oer!